# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 3YDD EBRILL, 2025**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB**

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid – Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**IwanEdwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 26 Mawrth 2025)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (16)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
Sian Williams
Rheinallt Puw
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
John Pughe
Berwyn Parry Jones

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Y Cynghorydd Menna Trenholme
Y Cynghorydd Paul John Rowlinson

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 20 o Chwefror 2025, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU TAI 13 - 24

Ystyried yr adroddiad.

## 6. GWASANAETH IECHYD MEDDWL GWYNEDD 25 - 31

Ystyried yr adroddiad.

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD AR RAGLEN WAITH TIM AWTISTIAETH 32 - 39

Ystyried yr adroddiad.

## 8. GRWP CRAFFU CYD-BWYLLGOR IECHYD A GOFAL CANOLBARTH CYMRU 40 - 41

I ethol aelod I gynrychioli’r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**20/02/25**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**
Beth Lawton (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, Meryl Roberts, Sian Williams, Rheinallt Puw, Gwynfor Owen ac Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Mannon Emyr Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol), Alun Gwilym Williams (Pennaeth Cynorthwyol Busnes), Mari Wynne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Anableddau Dysgu), Sian Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion), Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol Oedolion, Iechyd a Llesiant), Carwyn Rees (Archwilio Cymru) a Sian Roberts (Arolygiaeth Gofal Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Teresa Owen (Bwrdd Iechyd), Dyfed Edwards (Bwrdd Iechyd) a Ffion Johnstone (Bwrdd Iechyd).

**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elwyn Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer 2024/25.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines, Angela Russell, Gareth Coj Parry ac Anwen Jane Davies.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Rheinallt Puw ar eitem 7, yn benodol y drafodaeth am Iechyd Meddwl. Fe adawodd y cyfarfod am y drafodaeth hon yn unig. Nid oedd y buddiant yn un a oedd yn rhagfarnu ar weddill y drafodaeth.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2024 fel rhai cywir.

## 6. AROLYGAETH GOFAL CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ARCHWILIAD AR Y CYD (HYDREF 2024)

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gan dynnu sylw at bresenoldeb llawn tîm rheoli'r Adran Oedolion yn y cyfarfod heddiw. Diolchwyd iddynt am eu hamser gan fynegi bod eu presenoldeb yn dangos cryfder ac ymroddiad yr Adran i'w cyfrifoldebau. Eglurwyd bod archwiliad ar y cyd rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi ei gynnal ym mis Hydref 2024 ar y gwasanaethau yn yr Adran Oedolion. Credwyd felly ei bod yn addas cyflwyno'r ddau adroddiad o fewn yr un eitem i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

Ychwanegwyd yn ystod yr un cyfnod bod arolygiaeth o waith yr Adran oedd wedi ei gomisiynu gan yr Adran drwy'r CLILC wedi ei gynnal a hefyd y gwaith ar y cynllun Llechen Lan. Mynegwyd bod bwriad i ddod a chanfyddiadau'r holl arolygon at ei gilydd a chreu un cynllun gweithredu manwl ar gyfer yr Adran. Eglurwyd y bydd y cynllun hwn mewn amser yn dod ger bron y Pwyllgor Craffu Gofal er mwyn derbyn ei fewnbwn, sydd wastad yn cael ei werthfawrogi gan yr Adran.

Diolchwyd i swyddogion AGC a SAC am y cyd-weithio cyson efo'r Adran Oedolion a mynegwyd gwerthfawrogiad am eu mewnbwn. Amlygwyd bod canran uchel iawn o'r materion sy'n cael eu nodi yn faterion sy'n heriol yn genedlaethol neu'n faterion sydd eisoes wedi eu hadnabod a'r Adran yn ceisio darganfod datrysiadau ar eu cyfer.

Cyflwynodd cynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Cymru'r adroddiad gan fanylu ar y canfyddiadau. Diolchwyd i Uwch Swyddogion yr Adran am eu gwaith o ragbaratoi cyn mis Hydref ac am y gwaith a'r gefnogaeth yn ystod yr archwiliad. Tynnwyd sylw at y llythyr sydd wedi ei gynnwys yn y Rhaglen (tudalen 16) gan egluro mai'r llythyr hwn yw canlyniad yr ymweliad.

Amlygwyd rhai materion sydd wedi eu cynnwys yn y llythyr megis y ganmoliaeth am y cynnydd sydd wedi ei wneud yn y maes gofal cartref er bod gwelliannau pellach i'w gwneud. Credwyd bod angen cysoni'r amser aros am asesiadau gan fod oedi efo rhai asesiadau am ofal cartref. Cydnabuwyd hefyd y cryfderau a'r gwelliannau clir yn y maes diogelu oedolion ac asesu galluedd meddyliol pobl.

Derbyniwyd bod heriau yn bodoli wrth geisio gweithio mewn partneriaeth efo'r Bwrdd Iechyd gan gydnabod bod ymdrechion yn cael eu gwneud a phwysleisiwyd y pwysigrwydd i barhau â'r ymdrechion hynny. Tynnwyd sylw at rai meysydd i'w gwella megis yr heriau wrth gofnodi data am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl gan nodi bod lle i wneud y data yn fwy dibynadwy.

Cyflwynodd cynrychiolydd Archwilio Cymru drosolwg o'r Adroddiad Archwilio Cymru fel sydd wedi ei gynnwys yn y Rhaglen (tudalen 37). Eglurwyd bod y gwaith archwilio SAC yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â darparu a chomisiynu gofal cartref mewnol ac allanol. Diolchwyd am y croeso yn ystod yr ymweliad ac am y cyd-weithio.

Rhoddwyd canmoliaeth i adroddiad Llechen Lan a'r cynlluniau sydd ar y gweill gan nodi fod hyn yn dangos meddwl hir dymor ac ystyriaethau i drawsnewid yr Adran i fod yn fwy effeithiol. Nodwyd ei bod yn wendid bod y flaenoriaeth hon ddim yn cael ei gynnwys yng nghynllun yr Adran nac yng Nghynllun y Cyngor ond amlygwyd bod cynlluniau ar y gweill a newidiadau eisoes wedi digwydd i adfer hyn, oedd yn galonogol iawn.

Tynnwyd sylw at un elfen oedd yn aneffeithiol yn y system bresennol sef bod tensiwn rhwng rhedeg gwasanaeth effeithlon a diffyg cyllideb a chreu gwasanaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol. Nodwyd heb newid mawr roedd y gorwariant eleni yn ymddangos yn anochel. Ategwyd bod Llechen Lan yn dangos mwy o alw; o ganlyniad bydd angen gwneud yn siŵr bod lefel gwasanaeth yn gyson a bod sicrwydd i'r Cyngor a'r Aelodau bod y gyllideb yn gynaliadwy er mwyn osgoi'r angen i ddarganfod mwy o arian wrth gefn yn flynyddol.

Cyfeiriwyd at y gofrestr risg oedd yn cydnabod y risgiau ac yn adnabod camau lliniaru. Nodwyd nad oes disgwyliad i'r Adran ddatrys yr holl rwystrau yn y dyfodol agos ond bod camau mewn lle a bod y rhestrau aros yn lleihau a'n gwella yn gyson. Tynnwyd sylw at arddangosyn 3 yn yr adroddiad ar dudalen 45 o'r Rhaglen oedd yn gwneud 4 o argymhellion i'r Cyngor.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr Adran Oedolion wedi wynebu sawl her yn ddiweddar ac ymfalchïwyd bod canlyniadau'r arolygon yn eithaf cadarnhaol. Cydnabuwyd bod llefydd i wella a bod canlyniadau'r holl arolygon gan gynnwys yr arolwg CLlLC wedi dod i gasgliadau weddol debyg. Amlygwyd bod yr Adran yn ymwybodol o lawer o'r meysydd i'w gwella eisoes gan nodi bod ambell un o'r meysydd hyn yn her i'r Adran ond credwyd bod yr adroddiad AGC yn deg a chywir ac yn rhoi cyfle i'r Adran well.

Credwyd bod yr adroddiadau i gyd yn casglu fod yr Adran ar y trywydd cywir ond angen gweithredu yn gyflymach. Tynnwyd sylw at y cynllun gweithredu sydd yn ei le gan yr Adran.

Cyfeiriwyd at yr heriau yn y maes gofal cartref, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan gydnabod bod rhagor o waith i'w wneud yn y maes. Ychwanegwyd bod y sefyllfa yn gwella ac y bydd adroddiad er mwyn ychwanegu'r gwaith ar ofal cartref i mewn i Gynllun y Cyngor yn dod ger bron y Cyngor Llawn yn fuan. Croesawyd y sylwadau gafodd eu derbyn gan yr arolygwyr ar y rhaglen Llechen Lan a diolchwyd i'r arolygwyr am eu gwaith.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am yr adroddiadau. Cyfeiriwyd at awgrym mewn cyfarfod blaenorol i'r Adran Oedolion wneud mwy o ddefnydd o'r broses craffu. Awgrymwyd efallai bod lle i wneud mwy o ddefnydd o'r Pwyllgorau Craffu ac i newid y ffordd mae Craffi'n cael ei gynnal er mwyn bod yn fwy o gymorth i'r Adrannau.

Pryderwyd nad oes gan rai o weithwyr rheng flaen y Cyngor e.e. gofalwyr cartref neb i siarad â hwy yn ddigon aml a cwestiynwyd os all y Cyngor roi mwy o gyfleoedd i'r staff yma leisio eu barn.

- Mewn ymateb cydnabuwyd yr her o dderbyn adborth gan staff gan nodi fod y swyddi rheng flaen hyn yn gallu bod yn swyddi unig.
- Eglurwyd bod y Cyngor wedi cynnal sesiynau diolch ar gyfer gofalwyr cartref oedd yn gweithio i'r Cyngor flwyddyn diwethaf. Eglurwyd bod y sesiynau hyn ar gyfer y gweithwyr gofal cartref sydd allan yn y gymuned. Cynhaliwyd 10 sesiwn gan nodi bod yr Adran wedi derbyn llawer o adborth defnyddiol. Nodwyd yn dilyn yr adborth a'r argymhellion bod newidiadau eisoes wedi digwydd megis gofod cinio pwrpasol i'r staff a goruchwyliaeth a chefnogaeth gan reolwyr llinell. Cyfeiriwyd at yr hybiau sydd wedi eu sefydlu mewn rhai ardaloedd er mwyn cwrdd â'r gofyn hwn gan y staff.
- Nodwyd bod yr Adran yn ymwybodol o'r gofynion gan ofalwyr cartref ac yn ceisio gweithredu ar y pryderon a godwyd gan yr Aelod.

- Ychwanegwyd bod cynlluniau i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesant a'r Aelod Cabinet i ymweld â gwasanaethau'r Adran dros y misoedd nesaf. Amlygwyd mai'r bwriad yw gwrando ar staff a'u pryderon a'r heriau y maent yn ei wynebu.
- Soniwyd bod gwaith ar y gweill i gael siarter fel bod staff yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn y gwaith. Nodwyd hefyd bod holiaduron yn cael eu hanfon allan i staff er mwyn derbyn eu barn am y gwasanaeth.
- Cyfeiriwyd at yr Academi Gofal sydd bellach wedi ei sefydlu er mwyn denu a chefnogi gyrfa staff yn y meysydd gofal.

Cydymdeimlwyd â'r heriau cyson sy'n wynebu'r Adran Oedolion. Tynnwyd sylw at bwynt yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am ddiffyg cyllideb digonol yn yr Adran Oedolion gan ofyn sut y gellir sicrhau rhagor o gyllideb i'r Adran yn sgil yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Gobeithir y byddai'r neges hon yn cael ei chyfleu i Lywodraeth Cymru gan fynegi barn bod y Cyngor yn cael ei dan-gyllido.

- Mewn ymateb nodwyd bod SAC wedi llunio adroddiad cenedlaethol ym mis Rhagfyr ar ariannu'r sector Llywodraeth Leol ble mae neges glir am yr anawsterau sydd o fewn y sector yn genedlaethol.
- Ychwanegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant mae'r nod ydi gweithredu yn fwy effeithlon er mwyn cyfarch yr anghenion ond bod hyn yn anodd yn sgil y cynnydd yn y galw. Nodwyd ei bod yn ddyletswydd i ddefnyddio'r arian sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithlon.

Gwnaethpwyd sylw nad oedd sôn yn yr adroddiad bod y gwasanaeth integredig iechyd meddwl oedd yn arfer bod efo'r Awdurdod Iechyd wedi dod i ben. Credwyd y dylai cyfeiriad at y newid yma fod wedi ei gynnwys yn yr adroddiad gan ei fod yn newid sylweddol.

- Mewn ymateb nodwyd mai ffocws AGC yn benodol oedd i ddilyn fyny ar y materion gafodd eu nodi yn yr archwiliad blaenorol nol yn 2022 a doedd y mater yma heb ei adnabod fel un o'r prif welliannau bryd hynny. Credwyd fod y mater yn un rhanbarthol ac yn ehangach na Gwynedd fel ardal benodol.
- Ychwanegodd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol y bydd adroddiad pellach ar y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn dod ger bron y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Ebrill.

Gofynnwyd faint o swyddogion sydd yn gwneud y gwaith o asesu pobl am o ran galluedd meddyliol o fewn y Cyngor ac os yw AGC yn credu fod y niferoedd hynny yn ddigonol.

- Mewn ymateb nodwyd bod pob Gweithiwr Cymdeithasol yn gallu gwneud asesiadau galluedd meddyliol a bod bid wedi ei gyflwyno am arian ar gyfer cyflogi dau asesydd budd gorau ychwanegol er mwyn cryfhau'r tîm DOLS.
- Gwnaethpwyd pwynt gan AGC bod safon yr asesiadau wedi gwella.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiadau a gofyn am adroddiadau cynnydd**.

7. **CWESTIYNAU AR GYFER PRIF WEITHREDWR, CADEIRYDD A RHEOLWR ARDAL Y BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR**

Croesawyd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i'r cyfarfod. Gofynnwyd y cwestiynau a oedd wedi eu gofyn ymlaen llaw i'r Bwrdd Iechyd yn y drefn yr oeddynt yn ymddangos ar Raglen y Pwyllgor gan roi cyfle i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd ymateb a'r Aelodau i holi cwestiynau pellach.

Gweledigaeth

Diolchwyd am y croeso cynnes a nodwyd ei bod hi'n braf cael ymweld â'r Cyngor i ateb cwestiynau. Esboniwyd bod y cynllun 'Gogledd Cymru Gwell' yn un sydd wedi bod yn rhedeg ers cyfnod ond yn rhywbeth mae'r Bwrdd Iechyd yn ail edrych arno. Eglurwyd bod o'n waith sydd wedi bod yn digwydd gyda'r trydydd sector, hefo partneriaid yn y cynghorau sir ar draws gogledd Cymru, ac yng Ngwynedd mae'n rhoi cyfle i roi ffocws ar les. Ymhelaethwyd mai'r bwriad yw t ceisio helpu, yn enwedig, y bobl mewn ardaloedd difreintiedig ac i fynd i'r afael ar y problemau mawr sydd yn medru gwneud gwahaniaeth yn y cefndir.

Cydnabuwyd fod problemau wedi codi gyda lefelau staffio yn ysbytai cymunedol ar draws Wynedd. Eglurwyd mai gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i'r dyfodol ywsefydlu mwy o unedau mân anafiadau i rwystro pobl rhag mynd i'r Ysbytai mwy i gael triniaeth. Ymhellach eglurwyd mai'r nod yw sefydlu ystafelloedd triniaeth yn yr ysbytai cymunedol hefyd i rwystro pobl rhag gorfod teithio yn bell i gael cyffuriau drwy eu gwythiennau. Adroddwyd fod y gwasanaeth 'Tuag Adref' wedi cael dechrau positif. Nodwyd bod claf yn medru aros yn eu tai gydag ychydig bach o gefnogaeth gan y Bwrdd Iechyd a'r nyrsys cymunedol i osgoi gorlenwi yn yr ysbytai.

Croesawyd y syniad o gael mwy o ysbytai cymunedol sydd yn medru darparu mwy o wasanaethau i gleifion, ond yn sgil hynny mynegwyd pryder gyda rhai gwasanaethau yn cael eu canoli, fel y gwasanaeth fasgwlaidd. Eglurwyd fod arbenigedd fasgwlaidd yn Ysbyty Gwynedd o'r blaen, ond mae'r gwasanaeth bellach wedi ei ganoli yn Ysbyty Glan Clwyd. Mewn ymateb eglurwyd fod hwb y gwasanaeth Fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd a bod rhai gwasanaethau eraill yn Ysbyty Gwynedd a Maelor. Nodwyd hefyd fod hyn yn broblem ehangach gan nad yw hi'n bosib cynnal gwasanaethau arbenigol ym mhob man yn y Gogledd oherwydd diffyg niferoedd.

Doctoriaid a gwasanaethau dyddiol eraill (sydd ddim yn wasanaethau brys):

Adroddwyd mai yn y gofal cychwynnol mae'r rhan fwyaf o waith y Bwrdd Iechyd yn cael ei wneud. Cyflwynwyd stateg oedd yn dangos, dros gyfnod o chwe mis, fod hanner miliwn o apwyntiadau gofal cychwynnol yng ngogledd gorllewin Cymru. Cydnabuwyd fod problemau gyda recriwtio meddygon sydd yn rhoi straen ar y system ond gobeithiwyd bydd agor ysgol feddygol ym Mangor yn helpu hyn yn y dyfodol.

O ran y mynediad i ofal cychwynnol, nodwyd eu bod yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol, gyda fferyllwyr sydd yn medru rhagnodi, therapyddion, nyrsys a pharafeddygon i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Soniwyd hefyd am y 'Sialens 50 diwrnod' sydd wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i roi arian ychwanegol i'r fferyllwyr ag i'r meddygon i edrych ar y cleifion bregus a fydd yn helpu i drio cadw cleifion adref, neu mor agos â phosib i adref. Rhybuddiwyd mai arian byr dymor ydy'r arian yma i dreialu gwahanol bethau.

Cydnabuwyd fod anawsterau llif yn yr adran argyfwng ond nodwyd fod hyn yn gysylltiedig gyda'r nifer o bobl sy'n dod i'r adran yn hytrach na'r angen am wasanaethau argyfwng. Eglurwyd fod angen hwb cynhwysfawr ym mhob cymuned gydag amrediad o wasanaethau, a bod pobl yn ymwybodol o hynny. Byddai hynny yn tynnu'r pwysau oddi ar yr adran argyfwng. Nodwyd fod angen teilwro'r mynediad i'r adran argyfwng yn well drwy gyfeirio pobl at yr amrediad o wasanaethau eraill sydd ar gael. Mynegwyd pryder gan yr aelodau fod diffyg uned man anafiadau mewn rhai ardaloedd sydd yn gorfodi pobl i fynd i'r uned argyfwng ac felly cwestiynwyd os oes angen mwy o unedau man anafiadau o gwmpas Gwynedd.

Esboniodd aelod ei fod wedi mynychu'r adran argyfwng yn ddiweddar ac nid oedd peiriant gwerthu brechdanau na pheiriant gwerthu dŵr oer. Nodwyd mai rhywbeth bach iawn fyddai darparu peiriant diod a brechdanau yn yr uned argyfwng a fyddai'n gwella profiad pobl yn yr uned. Ymhellach, nododd fod cymaint o wendidau yn y system a'i fod yn bryderus am y dyfodol. Ymhelaethodd  bod y staff yn gwneud eu gorau o dan straen anhygoel ond nad yw'r system yn gweithio'n effeithiol.

Cytunwyd bod problem gyda'r diffyg peiriannau bwyd a diod yn yr uned a bod gwaith angen ei wneud i wella profiadau pobl yn yr uned. Cydnabuwyd fod problemau mawr gyda'r adran argyfwng ond fod hyn yn broblem genedlaethol gyda'r boblogaeth yn byw yn hŷn. Nodwyd bod angen mynd i'r afael a'r broblem yma, gan gynnwys rhoi sylw i ddarparu gofal yn nes at adref a'r ffordd mae cymdeithas yn defnyddio gwasanaethau sydd ar gael.

Soniwyd bod profiadau pobl wrth ddisgwyl am driniaeth yn rhywbeth mae'r Bwrdd Iechyd yn medru dylanwadu arno yn uniongyrchol, ac y dylid edrych ar ôl y cleifion sydd ar restrau aros. Yn yr un modd, ymhelaethwyd fod yr un peth yn wir yn yr adran argyfwng gyda phobl yn disgwyl oriau ac weithiau diwrnodau i'w cael eu gweld. Nodwyd fod angen gwneud hyn heb effeithio ar yr ochr glinigol a bod angen gweithio gyda phartneriaethau eraill fel y Groes Goch i greu'r amodau gorau phosib i bobl sy'n disgwyl yn yr uned argyfwng.

Gofynnwyd a oes uned man anafiadau ym Mangor sydd ar agor drwy ddydd bob dydd. Nododd yr aelod ei bod wedi bod yn yr adran argyfwng yn ddiweddar ac roedd llawer o bobl yno nad oedd angen gwasanaeth argyfwng. Byddai rhain wedi medru cael eu cyfeirio at yr uned man anafiadau i dynnu'r pwysa oddi ar yr adran  argyfwng.

- Mewn ymateb, eglurwyd fod yna ffrwd i bobl sydd gyda man anafiadau a bod llwybr wedyn iddynt gael triniaeth heb amharu ar y bobl sydd wir mewn argyfwng. Nodwyd pryderon yr aelodau a chadarnhawyd eu bod am fynd a'r sylw yma yn ôl fel adborth. Ymhellach, cwestiynwyd os mai Ysbyty Gwynedd yw'r lle gorau i drin pobl gyda man anafiadau ac awgrymwyd y dylid ystyried sefydlu safleoedd eraill i'r math yma o driniaeth yn gwneud mwy o synnwyr yn ddyfodol.

<u>Fferyllfeydd a deintfeydd</u>

Esboniwyd nad yw  agor fferyllfeydd yn dod o dan reolaeth y Bwrdd Iechyd. Eglurwyd, pan mae yna fwlch o ran fferyllfa yn y Gogledd, bod pobl yn medru rhoi cais i mewn er mwyn llenwi'r bwlch ond nid yw'r Bwrdd Iechyd yn medru rheoli'r broses yn ormodol. Os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo, mae gan yr ymgeiswyr 7 mis i agor y fferyllfa ac mae

yna gyfnod lle maent yn gorfod hysbysu a dweud wrth randaliad. Cydnabuwyd fod y broses yn un cymhleth a hir ond fod rheolau mewn lle ac mae'r Bwrdd Iechyd angen eu dilyn.

Gofynnwyd a yw'r cynrychiolwyr yn cefnogi cais yr aelod seneddol dros Wynedd i gael ysgol ddeintyddol ym Mangor.

- Mewn ymateb, nodwyd eu bod wedi cefnogi pob ymgais i ddatblygu darpariaeth o wasanaethau o gwmpas y Brifysgol ym Mangor. Nodwyd eu bod yn hapus i gydweithio gyda llywodraeth a'r brifysgol i wireddu hynny oherwydd bod yr angen yn amlwg. Ategwyd mai'r gobaith wedyn yw gallu recriwtio staff lleol i helpu gyda'r broblem recriwtio.

Gofynnwyd pam ei bod hi'n anodd denu deintyddion i ardaloedd gwledig.

- Cydnabuwyd eu bod hi'n anodd a bod y cyfnod pandemig wedi gwaethygu'r broblem o ran contractwyr. Nodwyd fod proses caffael gwasanaeth deintyddol y llywodraeth, sydd yn werth 5 miliwn, yn digwydd ar hyn o bryd o. Eglurwyd hefyd eu bod wedi edrych ar sut gall y Bwrdd Iechyd addasu'r gwasanaeth wrth ddefnyddio deintyddion y Bwrdd Iechyd a'i gyrru nhw allan i'r gymuned.

<u>Ambiwlans</u>

Cydnabuwyd fod y Bwrdd Iechyd angen gweithio yn fwy effeithiol er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans.. Nodwyd fod pedwar ffrwd o waith yn cael sylw ar hyn o bryd sef cymorth yng nghartref yr unigolyn, o flaen drws yr ysbyty, llif o fewn yr ysbyty a rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Soniwyd fod gwaith mawr yn digwydd ar hyn o bryd i wneud y broses yn un lot fwy effeithlon.

Nodwyd, fel enghraifft o ddatblygiad y gwasanaeth, fod y Bwrdd Iechyd yn gweithio yn agos gyda'r gwasanaeth ambiwlans ac wedi nodi y gall y gwasanaeth wneud asesiadau wrth weld y claf yn ble maent wedi cael y ddamwain. Byddai hyn yn sicrhau fod y bobl sydd angen dod i'r ysbyty yn cael y blaenoriaeth.

O ran colli Pencadlys Ambiwlans Awyr Caernarfon, nodwyd nad oeddynt eisiau mynd mewn i ormod o fanylder wrth ateb y cwestiwn gan fod achos llys ar hyn o bryd a bod Bwrdd Iechyd Gwynedd ynghyd a Powys wedi gwrthwynebu'r newidiadau. Ategwyd nad oeddent yn sicr ar hyn o bryd a fydd colli Pencadlys yn cael effaith negyddol ar Ysbyty Gwynedd. Eglurwyd fod Ysbyty Gwynedd yn datblygu safle ambiwlans awyr er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn gallu cael mynediad i'r ysbyty yn rhwydd.

<u>Canoli Gwasanaethau</u>

Adroddwyd gan gynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd fod bwriad, drwy'r cynllun 5 mlynedd, i wneud asesiad o beth fydd gofynion y boblogaeth am y blynyddoedd nesaf i'w ddod ac yna penderfynu lle mae'r Bwrdd angen darparu gwasanaethau. Crybwyllwyd fod yna ddwy ystyriaeth, sef sut y gellir sicrhau'r gwasanaeth gorau i bobl mewn angen a sut i sicrhau mynediad i'r gwasanaeth. Cydnabuwyd ei bod yn medru bod yn heriol i bobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig i gael mynediad i wasanaethau ond ar yr un pryd, bod angen cofio mai'r cyfle gora i bobl gael ansawdd iechyd gorau ydy drwy gael y gwasanaeth gorau.

<u>Gwasanaeth Fasciwlar</u>

Cadarnhawyd fod y gwasanaeth fasciwlar yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd. Yr unig newid yw bod rhan o'r gwasanaeth arbenigol yn cael ei ddarparu yn Stoke. Nodwyd fod y niferoedd sydd yn derbyn y gwasanaeth yma yn fach iawn gyda thri yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Eglurwyd mai'r bwriad i'r dyfodol yw datblygu'r gwasanaeth ac adeiladu ar y bartneriaeth gyda'r ysbyty yn Stoke. Credwyd ei bod hi'n bwysig nodi fod gwasanaethau arbenigol trwy Brydain yn digwydd mewn llai o ganolfannau a bod angen sicrhau fod pobl yn cael y gwasanaeth gorau phosib.

Cydnabuwyd a nodwyd eu bod yn ymwybodol o bryderon ynghylch pellter teithio i dderbyn rhai gwasanaethau. O ran y gwasanaeth fasciwlar yn benodol, esboniwyd mai i dderbyn y gwasanaeth gorau phosib y man gorau ar hyn o bryd yw drwy'r ysbyty yn Stoke. Nodwyd fod y bartneriaeth rhwng yr ysbytai ar waith clinigol yn gweithio ac effeithiol iawn.

<u>Iechyd Meddwl</u>

Adroddwyd fod y gwasanaeth integredig iechyd meddwl rhwng Cyngor Gwynedd a'r bwrdd iechyd wedi dod i ben ym mis Mai 2024. Esboniwyd fod hyn wedi bod yn digwydd ar draws Cymru ac nid yn unigryw i Wynedd. Nodwyd fod y gwasanaeth dal yn bodoli ond yn fodel ychydig yn wahanol, hynny yw, tydi o ddim yn integredig. O ran y disgwyliadau, adroddwyd fod y gwasanaeth iechyd meddwl yn cael ei fonitro yn rheolaidd ac mae'r ffigyrau yn cael eu rhannu gyda'r llywodraeth yng Nghymru.

Esboniwyd nad ydynt wedi cynyddu'r tîm iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd ond wedi defnyddio amser ychwanegol staff sydd yno yn barod er mwyn ceisio helpu. Cydnabuwyd fod dipyn o ôl-groniad ond fod hyn yn broblem genedlaethol a bod y timau cenedlaethol yn edrych ar beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau yma. Nodwyd eu bod yn monitro cwynion a bod tîm o fewn y bwrdd iechyd sydd yn helpu cleifion ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael ateb i'w cwynion mor sydyn â phosib.

O ran y dyfodol, nodwyd eu bod yn teimlo'n bositif oherwydd bod strategaeth newydd ar Iechyd Meddwl yn dod allan gan lywodraeth Cymru blwyddyn yma. Bydd hyn yn gwneud y disgwyliadau gan bawb o fewn y system yn glir. Gobeithir bydd y ffocws ar y claf fel eu bod nhw'n cael y gofal sydd angen.

Soniwyd bod gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol er mwyn cyfarch y rhestru aros. Nodwyd hefyd bod adolygiad staffio yn digwydd er mwyn ceisio deall yn union lle mae'r meysydd gwan ac os ydy'r staffio yn ddigonol ar gyfer y dyfodol. Esboniwyd bod y bwrdd iechyd yn derbyn cefnogaeth hefyd gan 'HEIW' sydd wedi cyflwyno strategaeth newydd yn y maes.

<u>Gwasanaethau canolraddol ataliol</u>

O ran beth mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu cyllidebu, eglurwyd fod un swydd wag yn ymwneud a therapi galwedigaethol ac un yn wag oherwydd salwch. O ran ffisiotherapi, nodwyd eu bod wedi recriwtio a bod pob tîm yn llawn. Credwyd eu bod hi'n amser cyffroes ar hyn o bryd i bobl sydd yn gweithio yn y maes yma a bod arian wedi cael ei roi gan y llywodraeth i deilwra swydd ddisgrifiadau a chwmpas proffesiynol. Esboniwyd fod yna ymgynghorydd therapi yn rheoli a rhedeg yr adran ac yn cael canlyniadau gwych gyda chleifion. Ar ben hynny, nodwyd fod data positif yn dechrau dod i sylw sydd yn dangos fod mwy o gleifion yn aros yn eu cartref a ddim wedi gorfod mynd i'r ysbyty.

<u>Gofal Iechyd Parhaus</u>

Eglurwyd fod y bwrdd iechyd yn gweithio o fewn fframwaith cenedlaethol a bod y broses yn un anodd a hir. O ran edrych ar ofal diwedd bywyd, esboniwyd fod y fframwaith yn

gadael i'r bwrdd iechyd symleiddio proses. Ar ben hyn, er mwyn trio symleiddio'r broses mwy, nodwyd eu bod wedi bod yn defnyddio rhai o'r gwlâu yn yr ysbytai cymunedol yn wahanol. Hynny yw, dod a'r claf i'r ysbyty cymunedol a gwneud yr asesiad yn yr ysbyty cyn mynd adref neu i gartref penodol.

<u>Gwella systemau a chyfathrebu</u>

Eglurwyd mai blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yw gwneud yn siŵr fod eu systemau yn integreiddio yn llawn. Nodwyd fod ambell i le, fel yr uned iechyd meddwl, lle nad oes ganddynt systemau electroneg mewn lle ar hyn o bryd. Er hyn, mae'r bwrdd iechyd yn datblygu system electroneg ar gyfer cofnodi holl ofal iechyd. Teimlwyd ei fod yn flaenoriaeth leol i'r bwrdd iechyd ond fod angen cydweithio gyda byrddau iechyd eraill i wneud yn siŵr bod popeth yn integredig

Tynnwyd sylw gan aelod at ddiffygion y systemau electroneg yn yr ysbytai. Nododd ei fod wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am apwyntiad ond nad oedd yr ysbyty yn medru cael lluniau ei belydr-x o Abergele oherwydd bod y systemau yn wahanol a ddim yn gydnaws. Ategodd ei fod yn bwysig fod y doctoriaid mewn ysbytai gwahanol yn medru gweld y wybodaeth maent ei angen yn hawdd ac yn syth.

Cydnabuwyd cynrychiolydd y bwrdd iechyd bod angen gwella'r ffordd maent yn defnyddio technoleg a manteisio mwy arno. Esboniwyd fod Covid wedi creu peth newid ond bod angen parhau i ddatblygu defnydd o dechnoleg a sicrhau fod systemau priodol mewn lle.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am fod mor barod i ateb cwestiynau gan yr aelodau ac am fod yn onest gyda'i atebion. Pwysleisiwyd fod angen cydweithio rhwng pawb i wneud yn siŵr fod pethau yn gwella yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd a'u hymatebion i gwestiynau'r aelodau fydd wedi eu crynhoi yng nghofnodion y Pwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2:50yp

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 3 Ebrill 2025 |
| **TEITL** | Cynllun Gweithredu Tai – Diweddariad cynnydd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cyfrannu at faes blaenoriaeth Gwynedd Glyd yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 |
| **AWDUR** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Paul Rowlinson |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol, sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd ac ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd yn flaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor ac mae'r prosiectau sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai yn ceisio ymateb i hynny.

1.2. Craffwyd y cynllun yn Chwefror 2024 felly byddai'n amserol gofyn am adroddiad cynnydd pellach ym mis Ebrill 2025.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Beth yw'r cynnydd?
- Yw'r cynllun ar drac i gyflawni?
- Beth yw effaith y cynllun?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1. Mae 831 o unedau wedi eu hadeiladu, prynu neu wedi dod yn ôl i ddefnydd ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, gyda 227 o'r rheiny ers i'r Adran adrodd ddiwethaf i'r Pwyllgor hwn yn Chwefror 2024.

3.2. Hyd yma, mae'r gwariant o dros £68m ar y cynlluniau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai (gyda £10.5m o hynny yn wariant o'r gronfa Premiwm Treth Cyngor), sydd wedi helpu 8,720 o bobl Gwynedd. Gellir gweld trosolwg o holl ffigurau sylfaenol y Cynllun ynghyd â chynnydd yn erbyn yr uchelgais yn Atodiad 1.

3.3. Rhaid cydnabod ein bod wedi wynebu heriau ar hyd y daith e.e. roedd dwy flynedd gyntaf y Cynllun yn anodd iawn o ganlyniad i sgil-effeithiau'r pandemig a Brexit; tra rydym wedi llwyddo i brynu tai yn gyflym, mae'r adnewyddu wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd diffyg adnodd a chontractwyr; mae cyfraddau llog, costau adeiladu a chostau byw i gyd wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r Cynllun.

3.4. Er hyn, rydym yn ffyddiog bod ein prosiectau ar drac i gyflawni'r uchelgais a osodwyd ar ddechrau'r Cynllun o fewn y cyfnod amser.

3.5. Trwy gyflawni prosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, ceir effaith cadarnhaol ar les trigolion Gwynedd, eu gallu i dderbyn tenantiaeth neu i fod yn berchen ar gartref, yn ogystal â sicrhau cyfleoedd i bobl fyw mewn cartrefi addas, diogel ac o safon. Gall effaith gadarnhaol ar adnoddau'r Cyngor ei weld hefyd, wrth i'n dibyniaeth ar lety argyfwng costus leihau, a gobeithir y byddwn yn mynd beth o'r ffordd i gyfarch y galw enfawr sydd am dai.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar gynnydd prosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai a'i effaith ar bobl Gwynedd.

4.2. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21-2026/27 gan y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020 ac fe gymeradwywyd y Cynllun sy'n cynnwys 33 o brosiectau ar draws pum maes allweddol er mwyn sicrhau bod gan bobl Gwynedd gartref addas, fforddiadwy ac o safon.

4.3. Mae'r pum maes allweddol hwnnw yn parhau yr un mor berthnasol heddiw, sef:

- Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael tenantiaeth gymdeithasol
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref yn eu cymuned
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion

4.4. Mae nifer o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai yn rhan greiddiol o alluogi'r Cyngor i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28 – mae 'Cynyddu'r cyflenwad o dai ar gyfer pobl leol', 'Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd' ac 'Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd' yn rhan allweddol o faes blaenoriaeth 'Gwynedd Glyd'.

4.5. Yn dilyn newidiadau i sefyllfa dai, anghenion pobl Gwynedd a ffynonellau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19 a Brexit, cymerwyd y cyfle i adolygu'r Cynllun yn 2023, gan gymryd mantais o gyfleoedd newydd i ehangu a helpu hyd yn oed mwy o drigolion y sir gyda'u sefyllfa dai.

4.6. Mae'r Cynllun cyfredol yn buddsoddi oddeutu dros 180m dros oes y Cynllun, a hynny trwy dynnu ar sawl ffynhonnell ariannol gan gynnwys y Grant Cymorth Tai, Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ac wrth gwrs y Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag.

4.7. Mae'r cyllid a dderbynnir o'r gronfa Premiwm Treth Cyngor (oddeutu 27% o holl werth y Cynllun) wedi'i glustnodi'n llawn yn erbyn prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai, megis cynlluniau llety â chefnogaeth, codi ein tai ein hunain, cyfrannu at elfennau trigiannol mewn cynlluniau cymunedol, dod â thai gwag y sir yn ôl i ddefnydd, a sicrhau bod pobl anabl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

4.8. Mae gallu cynnwys y Premiwm fel ffynhonnell ariannol wedi galluogi i'r Adran ddenu sawl grant ychwanegol. Rhoddwyd blaenoriaeth i wario'r grantiau hynny'n gyntaf gan fod terfyn amser arnynt, ac mae hynny yn ei dro wedi caniatáu i ni flaenoriaethu gwariant o'r premiwm a sicrhau bod hynny'n dod â'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

### Uchafbwyntiau a diweddariad cynnydd

4.9. Mae cynnydd da i'w weld ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Ebrill 2021:

| | *Gwahaniaeth ers yr adroddiad diwethaf* |
|---|---|
| • **352 tŷ cymdeithasol** wedi'i adeiladu | +111 |

| | |
|---|---|
| • **259 tŷ gwag** wedi dod yn ôl i ddefnydd | +57 |
| • **43 tŷ wedi'i brynu oddi ar y farchnad agored** | +22 |
| • **101 grant** wedi'u rhoi er mwyn adnewyddu tai gwag | +37 |
| • **746 o grantiau addasiadau tai** wedi'u dyrannu i alluogi i bobl anabl barhau i fyw yn eu cartref | +113 |

4.10. Yn sgil yr holl gynlluniau sydd o fewn y Cynllun Gweithredu Tai, mae **8,600 o bobl wedi derbyn cymorth** i fyw mewn tŷ yn lleol hyd yma.

**Llety â chefnogaeth (1a):**

4.11. Cwblhawyd ein datblygiad 5 uned llety â chefnogaeth cyntaf, **Dôl Sadler** (hen safle Ysgol Glan Wnion ar Bont yr Arran) y llynedd. Cafodd y prosiect ei enwebu ar gyfer gwobrau *Inside Housing Development* yn y categori *Best Supported Housing Development: Rural/Suburban*.

4.12. Mae sawl ffrwd waith arall ar y gweill, gan gynnwys 35 Ffordd y Coleg, Bangor (3 uned), 137 Stryd Fawr, Bangor (12 uned), a chyn-adeilad y Llywodraeth yn ardal Penrallt, Caernarfon (hyd at 40 uned) lle byddwn yn lleoli ein hwb tai newydd maes o law, yn ogystal â gwaith parhaus i adnabod safleoedd eraill ar draws y sir ar gyfer datblygu.

4.13. At hyn, mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian grant sylweddol trwy Raglen Gyfalaf ar gyfer Llety dros Dro (*Transitional Accommodation Capital Programme* neu *TACP*) Llywodraeth Cymru.

4.14. Mae 17 eiddo wedi cael ei gymeradwyo trwy'r Rhaglen ar draws y sir a 34 o unigolion wedi'u lletya yn y rhain ar hyn o bryd. Ymhellach, mae 6 eiddo arall yn yr arfaeth ar hyn o bryd.

4.15. Mae bwriad i drosi Adeilad Mona, Caernarfon, fu tan fis Rhagfyr 2024 yn swyddfeydd i'r Cyngor, yn 5 uned i letya unigolion er mwyn cwrdd â'r galw am lety dros dro yn Arfon. Mae cam 1, sef gwaith ar waliau allanol yr adeilad, wedi dechrau fis Mawrth, a bydd cam 2 yn dilyn yn fuan.

**Adeiladu tai cymdeithasol (2a):**

4.16. Nid yw'r Cyngor yn awdurdod sy'n dal stoc dai (yn sgil trosglwyddo'r stoc dai cymdeithasol yn 2010), ac felly mae cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai sy'n gweithredu yng Ngwynedd yn holl bwysig er mwyn cyfarch yr angen am dai fforddiadwy ar draws y sir.

4.17. Trwy arian Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a reolir gan y Cyngor, blaenoriaethir safleoedd lle mae galw am dai er mwyn diwallu anghenion trigolion ein sir.

4.18. Ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, mae 352 o dai cymdeithasol wedi'u codi ar draws Gwynedd a 361 arall ar y gweill ar y Prif Raglen. Mae hyn wedi helpu 1,178 o bobl i dderbyn tenantiaeth gymdeithasol

4.19. Yn wir, derbyniodd y Cyngor gydnabyddiaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru am y cydweithio a'r berthynas gadarnhaol sydd rhyngom a'r Cymdeithasau Tai, ac

rydym wedi bod yn llwyddiannus yn denu cyllideb ychwanegol pan fo arian dros ben yn y gyllideb genedlaethol yn rheolaidd.

**Cynllun Tŷ Gwynedd – adeiladu tai ein hunain (3a):**

4.20. Mae'r gwaith ar gynllun Tŷ Gwynedd wedi bod yn prysur fagu momentwm, gyda gwaith cefndirol i adnabod safleoedd, cwblhau gwaith dichonoldeb, tendro am gontractwyr a pharatoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio wedi bod yn digwydd dros y blynyddoedd ddiwethaf (ac yn parhau i ddigwydd ar safleoedd ar draws Gwynedd).

4.21. Bellach mae contractwyr ar safle mewn dau leoliad, sef **safle hen Lyfrgell Llanberis (3 uned)** a **safle hen ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor (10 uned)** ac mae'r gwaith adeiladu ar y gweill – daeth yr hen lyfrgell i lawr yn Llanberis yn ystod haf 2024, a dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2024; a chynhaliwyd digwyddiad torri tywarchen ar safle Coed Mawr ym mis Rhagfyr 2024.

4.22. Mae datblygiad safle **Maes Twnti, Morfa Nefyn (9 uned)** wedi derbyn caniatâd cynllunio Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor ar 13 Ionawr, 2025 ac mae safleoedd yn **Llanystumdwy (5 uned)** a **Mynytho (4 uned)** ar gamau gwahanol o'r broses ac yn gwneud cynnydd da.

4.23. Mae'r tîm hefyd yn ystyried safleoedd priodol eraill ar draws y sir i symud y rhaglen yn ei blaen a chyrraedd ein huchelgais o godi 90 o dai rhwng nawr a diwedd y Cynllun.

**Cynllun Prynu i Osod (2c/3b)**:

4.24. Hyd yma mae 43 o dai wedi'i prynu a 4 ar y gweill, ac 11 ohonynt bellach yn gartrefi newydd i deuluoedd lleol. Golyga hyn bod y targed a osodwyd ar gyfer pryniannau eleni (sef 43) wedi'i gyrraedd yn barod.

4.25. Mae gwaith atgyweirio/uwchraddio hanfodol ar y gweddill, ac mae potensial i hyd at 161 o unigolion elwa o'r tai hyn.

4.26. O ran gosod, mae 16 o dai ar osod i drigolion lleol, gyda 26 arall ar y gweill a byddant wedi'u gosod cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

4.27. Bydd y tai sydd ar osod yn cynhyrchu incwm rhent, a fydd yn ei dro yn cael ei ailfuddsoddi yn y Cynllun i brynu rhagor o dai, a sicrhau cynnal a chadw ein stoc.

4.28. Yn wreiddiol, bwriedid ariannu'r Cynllun hwn trwy fenthyca. Fodd bynnag, gyda chyfraddau llog a chostau yn eithriadol o uchel yn dilyn Brexit a Covid-19, cymeradwyodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2023, glustnodi a blaenoriaethu defnyddio cyllid Premiwm i ariannu peth o'r pryniannau nes byddai sefyllfa fenthyca yn gwella.

4.29. Gyda chyfraddau llog yn parhau'n uchel, byddwn yn gofyn i'r Cabinet am sêl bendith i glustnodi rhagor o arian y Premiwm er mwyn pontio at gyfnod lle bydd cyfraddau'n well, er mwyn gallu parhau â'r cyflymder presennol tra bydd trafodaethau pellach yn digwydd gyda'r Adran Cyllid ynghylch sefyllfa fenthyca.

4.30. Mae gwaith parhaus yn digwydd i adnabod rhagor o eiddo addas er mwyn cyrraedd yr uchelgais o brynu a gosod 100 o dai o fewn oes y Cynllun.

**Ymgysylltu gyda'r gymuned (3c)**

4.31. Er y gwyddom fod y galw am dai yn uchel, a bod data pendant i gefnogi hynny ar gael ar gyfer pob ardal o Wynedd, mae ymgysylltu gyda thrigolion Gwynedd yn rhan bwysig o waith yr Adran a'r Cynllun Gweithredu Tai.

4.32. Tra bo sawl dull o wneud hynny, un o'r dulliau mwyaf effeithiol yw mynd allan i'r gymuned i siarad yn uniongyrchol gyda phobl Gwynedd. I'r perwyl hwnnw, mae'r Adran wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau o'r enw 'Tai ar Daith' – sesiynau galw-i-mewn sy'n gwahodd aelodau o'r cyhoedd a chynghorwyr i alw i'n gweld i drafod eu sefyllfa dai, derbyn mwy o wybodaeth neu ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i swyddogion yr Adran Tai ac Eiddo a gwasanaethau cysylltiedig mewnol megis y Gwasanaeth Cynllunio, ynghyd â phartneriaid allweddol fel y Cymdeithasau Tai.

4.33. Cafwyd adborth da iawn i'r gyfres gyntaf a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2024. Daeth 158 o ymwelwyr i'n gweld, a dywedodd 96% o ymatebwyr iddynt elwa o'r sesiynau.

4.34. Bydd y gyfres nesaf yn ymweld â Bethesda, Porthmadog, Tywyn, a Nefyn. Gellir canfod mwy o wybodaeth yma: Tai ar Daith: Sesiynau galw-i-mewn

**Cynlluniau tai gwag (3dd)**:

4.35. Mae 259 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd ar draws Gwynedd o ganlyniad i gymorth grantiau a chefnogaeth ein tîm tai gwag, gan gynnwys 97 o grantiau tai gwag. Mae cyfanswm o 319 o bobl wedi'u helpu trwy hyn, gan gynnwys 125 o bobl trwy ddyrannu'r 97 grant.

4.36. Yn ddiweddar, cymerwyd y cyfle i ehangu'r Cynllun er mwyn ymateb i newidiadau i anghenion ein trigolion a'r cynnydd mewn costau sydd i'w weld yn genedlaethol. Bellach, mae uchafswm y grant sydd ar gael wedi cynyddu o £15,000 i £20,000, ac mae'r grant nawr ar gael i bob math o brynwr, nid prynwyr tro cyntaf yn unig.

4.37. Mae hyn yn ychwanegol i'r cam a gymerwyd yn 2023 i ehangu'r meini prawf i alluogi i berchnogion tai a fu'n arfer bod yn ail gartrefi gwag hefyd fod yn gymwys am y gefnogaeth, er mwyn annog cymaint â phosib o dai gweigion yn ôl i ddefnydd yn y sir.

4.38. Mae gwerth dros £1.1m o grantiau wedi'u dyrannu hyd yma, a hynny ar draws y sir, gyda'r rhaniad ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fel a ganlyn:

- Arfon – 49
- Dwyfor – 23
- Meirionnydd – 29

4.39. Yn ogystal, mae cynllun 3e sy'n cynnig eithriad treth Cyngor am hyd at flwyddyn i berchnogion tai gwag gyflawni gwaith adfer hanfodol wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda 123 o eithriadau wedi'u cymeradwyo hyd at chwarter olaf 2024.

**Cynllun Prynu Cartref (3f):**

4.40. Ers lansio'r cynllun hwn ar ei newydd wedd fis Medi 2022 mae 59 o aelwydydd (135 person) wedi derbyn cymorth i brynu eu cartref, a 35 cais arall ar wahanol gamau o'r broses, a hynny ar draws Gwynedd.

4.41. Hyd yma mae gwerth £4.5m o fenthyciadau wedi'u dyrannu trwy'r Cynllun hwn.

4.42. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda Pheilot Dwyfor, wedi sicrhau cytundeb i ehangu uchafswm gwerth eiddo cymwys ym meini prawf y Cynllun Prynu Cartref

mewn rhai ardaloedd o Ddwyfor lle mae prisiau tai yn uchel, er mwyn sicrhau bod trigolion lleol yn gallu cael y cyfle gorau i gael mynediad at y cynllun.

**Sefydlu Gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd (4a)**

4.43. Er mwyn rhoi cefnogaeth a chymorth i bobl Gwynedd gyda materion ynni, mae'r Adran wedi ehangu eu Gwasanaeth Ynni fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso cynlluniau arbed ynni, grantiau, a budd-daliadau er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl â phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael ar adeg heriol iawn.

4.44. Mae'r Cynllun ECO4, a lansiwyd yn 2022 ac yn para hyd 2026, yn rhan allweddol o hyn. Ariennir y Cynllun gan Lywodraeth Cymru, a thrwy'r Cynllun gellir rhoi grantiau i helpu aelwydydd bregus neu berchnogion tai sydd â pherfformiad ynni sâl i wella'r perfformiad ynni a lleihau tlodi tanwydd.

4.45. Hyd yma mae buddsoddiad o dros £10m wedi llwyddo i wella perfformiad ynni 597 o dai Gwynedd, gyda 248 wedi codi 4 gradd ynni. Erbyn hyn mae 449 o dai wedi cyrraedd gradd tystysgrif ynni B.

4.46. Mae'r Adran hefyd yn gweinyddu cynllun i ddyrannu talebau ynni i aelwydydd sydd â mesuryddion rhag-dalu. Mae'r talebau ar gael trwy elusen y *Fuel Bank Foundation*, ac mae 4,487 o dalebau wedi'u dyrannu hyd yma, gwerth £188,000.

**Addasiadau i dai oedolion a phlant anabl (5d, 5f, 5ff)**

4.47. Mae gwaith ar addasu tai ar gyfer pobl anabl yn rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu Tai er mwyn sicrhau bod tai yn gartrefi addas i'n trigolion. Mae'r addasiadau hyn yn aml yn golygu'r gwahaniaeth rhwng gallu parhau i fyw adref neu orfod gadael i lety gofal megis ysbyty neu gartref gofal.

4.48. Mae cynllun 5d (Cartrefi i blant gydag anghenion corfforol dwys) bellach helpu 14 o blant gyda'u sefyllfa gartref, trwy wneud gwaith megis estyniadau, trosi ystafelloedd gwely yn ystafelloedd gwlyb, gosod rampiau ac ati.

## 5. Ymgynghori

5.1. Trefnwyd sesiwn briffio i holl Aelodau'r Cyngor ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Tai ddydd Mercher, 19 Mawrth 2025. Daeth 19 o Aelodau i'r sesiwn a chafwyd cwestiynau gwerthfawr a sylwadau cadarnhaol iawn ar y cyfan.

5.2. Ymysg y sylwadau a gafwyd oedd cydnabyddiaeth o'r her sy'n wynebu'r Adran a'r Cyngor o safbwynt y galw am dai; ymholiadau am ba safleoedd yr ydym yn edrych arnynt i godi tai, a chwestiwn am sut rydym yn mynd o gwmpas adnewyddu'r tai yr ydym yn eu prynu i'w gosod.

5.3. Fel yr eglurir yn 4.29, mae'r Adran ar fin dechrau ail gyfres y sesiynau galw-i-mewn Tai ar Daith o gwmpas y sir lle bydd cyfle i aelodau o'r cyhoedd, cynghorwyr ac unrhyw un arall alw heibio i siarad gyda swyddogion o amrywiaeth o wasanaethau'n ymwneud â'r maes tai.

5.4. Rydym hefyd yn falch o fod wedi cael y cyfle i adrodd ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Tai i'r Pwyllgor Craffu hwn yn flynyddol ers 2022, ac yn gwerthfawrogi sylwadau'r Aelodau bob amser.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd llunio’r Cynllun Gweithredu Tai yn wreiddiol yn 2019/20, a gwelir cyfeiriad penodol at hanfodion y Ddeddf ymhob prosiect o fewn y Cynllun, fel y gwelir yn y llun isod:




## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1. Lluniwyd Asesiad Effaith i’r perwyl yma yn wreiddiol pan lansiwyd y Cynllun Gweithredu Tai yn 2020, ac eto pan adolygwyd y Cynllun ym Mehefin 2023 – gellir gweld yr asesiad trwy glicio yma: https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s38130/Atodiad%203%20-%20Asesiad%20Effaith%20Cydraddoldeb.pdf?LLL=1.

7.2. Ystyrir bod y Cynllun yn cael effaith bositif ar bob un o’r nodweddion cydraddoldeb a’r iaith Gymraeg trwy gynyddu’r nifer a’r ystod o dai o fewn y sir ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau.

7.3. Er enghraifft, bydd effaith bositif ar yr iaith Gymraeg trwy helpu oddeutu 63% o drigolion Gwynedd sydd wedi’u prisio allan o’r farchnad dai gael mynediad at gartrefi fforddiadwy, neu trwy fenthyciadau, grantiau, rhyddhad trethi ac ati. Mae data a gasglwyd gan Gymdeithas Dai Adra ar un o’u stadau newydd yn Ninas, Llanwnda yn ddiweddar yn nodi bod 94% o’r preswylwyr newydd yno yn gallu’r Gymraeg. Cynhaliwyd arolwg tebyg ar un o’u stadau newydd yn Nhregarth hefyd, gyda 96% o breswylwyr y stad honno yn gallu’r Gymraeg.

7.4. Mae’r Cynllun hefyd yn cael effaith bositif ar bobl anabl, gyda chynlluniau penodol (rhai wedi’u hamlygu yng nghorff yr adroddiad hwn) i gynorthwyo plant ac oedolion anabl gael cartref addas, fforddiadwy a hygyrch. Gwneir hyn trwy naill ai trwy wneud addasiadau i dai, neu gyflwyno unedau arbenigol dros dro a pharhaol.

## 8. Camau Nesaf

8.1. Bwriedir cyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet ar 13 Mai, 2025 fydd yn crynhoi cynnydd diweddar y Cynllun Gweithredu Tai, ynghyd ag amlinellu’r camau nesaf yn sgil ymestyn y Cynllun hyd 2028/29.

8.2. Wrth ymestyn y Cynllun am ddwy flynedd arall, bydd gwerth dwy flynedd o Bremiwm Treth Cyngor ar gael sydd angen ei glustnodi o fewn y Cynllun Gweithredu Tai.

8.3. Bwriedir clustnodi'r gyllideb Premiwm ychwanegol hwnnw fel a ganlyn:

| Cyf. | Cynllun | Cyllideb ychwanegol (Premiwm) |
|---|---|---|
| 1a | Llety â chefnogaeth (1a) | £2.7m |
| 2c | Prynu i Osod (2c) | £2.7m |
| 3a | Tŷ Gwynedd – adeiladu ein tai ein hunain (3a) | £2m |
| 3dd | Cynlluniau Tai Gwag (3dd) | £700k |
| *Newydd* | Manddaliadau | £2.1m |

8.4. Trwy hyn, bydd yr Adran yn gallu anelu i adeiladu, trosi neu adfer dros 500 o unedau ychwanegol i allbwn y Cynllun erbyn diwedd ei oes.

8.5. Bydd cyfanswm buddsoddiad o dros £180m ar draws holl brosiectau'r Cynllun, a hynny gan dynnu ar sawl ffynhonnell ariannol gan gynnwys y Premiwm Treth Cyngor, Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor a'r Grant Tai Cymdeithasol.

8.6. Pe derbynnir sêl bendith y Cabinet i'r camau nesaf, byddwn yn symud ymlaen i gyhoeddi dogfen wedi'i diweddaru o'r Cynllun Gweithredu Tai.

## 9. Gwybodaeth gefndirol

| | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21-2026/27 | https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Tai---dogfennau/Cynllun-Gweithredu-Tai.pdf |
| Adroddiad a chofnodion Pwyllgor Craffu Gofal 01/02/2024 – adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Tai | Eitem 5 – Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Gofal ar Dydd Iau, 1af Chwefror, 2024, 10.30 y.b. |
| Adroddiad a chofnodion cyfarfod o'r Cabinet 13/06/2023 – 'Adolygiad o Gynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd' | Eitem 11 – Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2023, 1.00 y.h. |

## 10. Atodiadau

Atodiad 1 – Trosolwg o fanylion a chynnydd holl brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai

## 11. Ymatebion i gwestiynau a dderbyniwyd ymlaen llaw gan Aelodau'r Pwyllgor

11.1. **Maes/pwnc: Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref**

| |
|---|
| **11.1.1 Beth yw'r ffigyrau digartrefedd diweddaraf ac a oes gostyngiad wedi bod o ganlyniad i gynlluniau'r Cyngor?** |

- Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 hyd at ganol Mawrth, mae 891 o aelwydydd wedi cyflwyno'n ddigartref i'r Gwasanaeth, a chafodd 564 o aelwydydd eu lleoli mewn llety argyfwng.
- Mae'r ffigyrau cyflwyniadau hyn o gwmpas yr un ffigwr â'r llynedd, fodd bynnag mae'r niferoedd fu mewn llety argyfwng wedi gostwng ychydig o gymharu â 2023/24 (pan lletywyd 662 o aelwydydd yn ystod y flwyddyn).
- Gall hyn fod am sawl rheswm, fodd bynnag mae ymdrechion caled a bwriadol yr Adran a'r Gwasanaeth Digartrefedd yn ffactor allweddol yn y lleihad hwn wrth i ni geisio lleihau ein dibyniaeth ar lety argyfwng anaddas.
- Byddwn yn gwybod y ffigyrau terfynol unwaith bydd y flwyddyn ariannol wedi dod i ben, ond mae'r data yma yn awgrymu, tra bod cyflwyniadau yn parhau'n uchel, mae cynlluniau a threfniadau'r Adran i leihau ein dibyniaeth ar lety argyfwng yn gweithio ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

**11.1.2 Faint o ddatblygiadau tai a chefnogaeth sydd wedi eu gwireddu a faint o bobl sydd wedi elwa o hyn?**

- Mae 20 o unedau llety â chefnogaeth wedi cwblhau ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, gan gynnwys datblygiad 5 uned yn Nolgellau, 2 uned ym Mhwllheli ac uwchraddio ein hosteli.
- Yn sgil hyn mae o leiaf 22 o unigolion wedi'u helpu, ac wrth i drosiant naturiol yr unedau yma fynd rhagddo, bydd mwy eto o unigolion yn elwa o'r datblygiadau.
- Gweler 4.12-4.16 yr adroddiad hwn am fanylion am rai o'r cynlluniau sydd wedi'u gwireddu ac sydd ar y gweill.

## 11.2. Maes/pwnc: Cynllun peilot Tai Arloesol

**11.2.1 Beth yw'r diweddaraf gyda adeiladu 4 "pod" i'r digartref o dechnoleg Passivhaus?**

- Roedd y podiau yma yn un o'r cynlluniau cyntaf i gwblhau dan faner y Cynllun Gweithredu Tai yn 2021: Tai ecogyfeillgar i roi cartref i bobl fregus yng Ngwynedd | NS4C | Newyddion S4C
- Mae egwyddorion *Passivhaus* yn golygu bod y podiau yn rhad iawn i'w rhedeg, ac yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Mae'r podiau wedi bod yn gartref dros dro i 9 o unigolion ers iddynt agor, gan gynnig llety diogel ac addas dros dro i'n pobl ddigartref, a galluogi i'r Adran leihau ei dibyniaeth ar lety anaddas a lleihau costau sydd ynghlwm â hynny.

## 11.3. Maes/pwnc: Prynu cyn-dai cymdeithasol a'u rhentu i drigolion Gwynedd

**11.3.1 Faint o gyn "dai cyngor" sydd ar werth sydd wedi eu prynu a'u gosod i'w rhentu gan bobl leol?**

- Gweler 4.25-4.31 o'r adroddiad hwn am ddiweddariad ar y Cynllun Prynu i Osod.
- Er cefndir i Aelodau, cafwyd sêl bendith y Cabinet i gyfuno prosiectau 2c (Prynu cyn-dai cymdeithasol a'u rhentu i drigolion Gwynedd) a 3b (Prynu tai preifat) ym mis Chwefror 2021, ac erbyn hyn, mae'r ddau gynllun hyn yn un prosiect o'r enw 'Prynu i Osod'. Cadarnhawyd hynny mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023 hefyd.

## 11.4. Maes/pwnc: Prynu tai preifat a thai rhent canolraddol

**11.4.1 Faint o dai preifat ar werth sydd wedi eu prynu a'u gosod i bobl leol ar rent canolraddol**

| |
|---|
| • Gellir cyfeirio at yr ateb i'r cwestiwn blaenorol (11.3.1) a'r hyn a nodir yng nghorff yr adroddiad hwn o dan 4.25-4.31. |
| **11.4.2 Rydym wedi derbyn cwynion gan rai etholwyr bod rhenti tai canolraddol sydd yn cael eu gosod gan gymdeithasau tai ar ran y cyngor wedi codi'n sylweddol. Allwch chi egluro pam bod y rhent yn uwch na'r rhent tai cymdeithasol a pham y rhoddwyd cynnydd o 5% ar y rhent yn ddiweddar?** |
| • Rhaid nodi bod lefelau rhent canolraddol a chymdeithasol yn ddau beth gwahanol, ac ni ellir eu cymharu gyda'i gilydd.<br>• Yn gyffredinol, mae lefelau rhenti a phrisiau canolraddol yn eistedd uwchlaw lefelau rhent cymdeithasol, ond o dan lefelau rhenti a phrisiau marchnad agored.<br>• Rydym yn ymwybodol fod rhenti canolraddol wedi cynyddu'n ddiweddar, er mater i'r cymdeithasau tai fyddai hyn gan nad oes gan y Cyngor ddylanwad dros osod y lefelau rhent a godir. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cynnydd yn unol â'r lefelau a ganiateir gan ganllawiau cenedlaethol, a bydd unrhyw newid wedi'i adlewyrchu oddi mewn i bolisïau'r cymdeithasau tai unigol. |

11.5. **Maes/pwnc: Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag**

| **11.5.1 Faint o drigolion sydd wedi manteisio ar y cyfle i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol? Ydych chi wedi cyrraedd y targed o helpu tua 70 o brynwyr tro cyntaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf?** |
|---|
| • Gellir cyfeirio at y diweddariad a roddir yn rhan 4.36-4.40 i ateb y cwestiwn hwn.<br>• O ran ail ran y cwestiwn, gallwn gadarnhau bod 97 o grantiau (sydd wedi helpu 125 o bobl) wedi'u dyrannu ers dechrau'r Cynllun. |

11.6. **Maes/pwnc: Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol**

| **11.6.1 Sawl darn o dir adeiladu mae'r Cyngor wedi prynu erbyn hyn** |
|---|
| • Mae 4 darn o dir wedi'i brynu hyd yma – ym Mynytho, Llanystumdwy, Morfa Nefyn a Chaernarfon. Mae'r tiroedd hyn yn galluogi i ni symud ymlaen gyda chynlluniau i adeiladu cartrefi i drigolion y sir dan faner Tŷ Gwynedd.<br>• Mae argaeledd tir addas yn gallu bod yn her, ac felly mae'n bwysig nodi ein bod yn defnyddio tiroedd sydd eisoes yn ein meddiant – yr enghraifft orau o hyn yw'r ddau ddatblygiad Tŷ Gwynedd sydd ar safle ar hyn o bryd, sef safle hen Lyfrgell Llanberis, a safle hen Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor. Mae lleoliadau eraill dan ystyriaeth hefyd megis Llanrug, Llidiardau, y Bala a Thywyn. |
| **11.6.2 Faint o safleoedd sydd eisoes wedi eu datblygu a faint sydd ar y gweill?** |
| • Mae contractwyr adeiladu ar 2 safle ar hyn o bryd, sef safle hen Lyfrgell Llanberis, a Choed Mawr, Bangor.<br>• Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn rhan 4.21-4.24 o'r adroddiad hwn. |

11.7. **Maes/pwnc: Tai gwag**

| **11.7.1 Beth yw'r cynlluniau i sicrhau bod adeiladau a thai gwag yn rhan o'r cynllun? (gan gynnwys adeiladau ym meddiant y Cyngor)** |
|---|
| • Mae dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn rhan greiddiol o'r Cynllun Gweithredu Tai ers y dechrau un. Dau brif gynllun sydd yn ymwneud â thai gwag, sef:<br>o 3dd – Cynllun Cartrefi Gwag (sy'n cynnwys grantiau i adnewyddu tai gwag - gweler rhan 4.36-4.40) |

- 3e – Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag – cynllun sy'n galluogi i berchnogion tai gwag gael hyd at flwyddyn ychwanegol o ryddhad treth er mwyn galluogi iddynt gwblhau gwaith adnewyddu angenrheidiol

- Noder fod cynlluniau eraill hefyd yn dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yn anuniongyrchol, megis y Cynllun Prynu i Osod (2c), Prynu Cartref (3f) a Chyfraniad at unedau fforddiadwy mewn cynlluniau adfywio cymunedol (3g).

## Trosolwg o brif ffigyrau cynnydd y Cynllun Gweithredu Tai

| | Disgrifiad | Targed Unedau | Unedau wedi cwblhau | Unedau ar y gweill | Targed unigolion | Unigolion wedi'u helpu | Cyllideb | Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a | Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref | 83 | 20 | 62 | 83 | 22 | £14,300,000 | £3,546,495 |
| 1b | Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref (Lle Da) | 4 | 4 | - | 4 | | £1,251,442 | £1,005,608 |
| 1c | Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys | 5 | | 5 | 5 | | £800,000 | £442,058 |
| 1ch | Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat | 140 | 23 | 11 | 331 | 64 | £3,300,000 | £243,465 |
| 1d | Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol | 0 | | 40 unigolyn | 200 | 56 | £240,000 | £45,158 |
| 1dd | Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon | 6 | | 6 | 6 | | £600,000 | £500 |
| 2a | Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol | 700 | 352 | 361 | 2,500 | 1,178 | £56,700,000 | £42,842,136 |
| 2b | Ail ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos | 107 | | | 176 | | | |
| 2c | Cynllun Prynu i Osod | 100 | 43 | 3 | 300 | 164 | £22,400,000 | £5,288,907 |
| 3a | Tŷ Gwynedd – datblygu tai ein hunain | 90 | | 43 | 330 | | £9,000,000 | £360,350 |
| 3c | Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai | 0 | - | - | 0 | 43 | £150,000 | £1,360 |
| 3ch | Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn-"dai Cyngor" | 70 | 43 | 20 | 75 | 63 | | |
| 3dd | Cynlluniau tai gwag | 282 | 259 | | 400 | 319 | £4,080,000 | £1,027,780 |
| 3e | Eithriad treth cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf | 120 | | | 120 | 123 | £200,000 | £165,061 |
| 3f | Cynllun Prynu Cartref Gwynedd | 120 | 59 | 35 | 425 | 135 | £11,500,000 | £4,561,495 |
| 3ff | Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol | 0 | | | 0 | 0 | £1,200,000 | £679,472 |
| 3g | Cyfraniad at uned fforddiadwy mewn cynlluniau adfywio cymunedol | 12 | 1 | | 12 | 4 | £600,000 | £37,500 |
| 4a | Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai | 0 | | | 4000 | 2000 | £500,000 | £231,620 |
| 4b | Cynllun peilot Tai Arloesol | 4 | 4 | | 4 | 4 | £600,000 | £839,269 |
| 5a | Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid | 4 | 0 | | 4 | | £1,400,000 | |
| 5b | Tai gofal estynedig – henoed | 72 | 0 | | 72 | | £13,000,000 | |
| 5ch | Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys | 15 | 0 | | 10 | | £500,000 | |
| 5d | Cartrefi addas i blant gydag anghenion corfforol dwys | 15 | 14 | 6 | 10 | 14 | £1,200,000 | £1,438,759 |
| 5dd | Frondeg, Caernarfon | 17 | 0 | | 20 | | £200,000 | £2,552 |
| 5e | Benthyciadau di-log i wella cyflwr tai | 0 | 12 | 20 | 25 | 27 | £250,000 | £137,335 |
| 5f | Diogelwch yn y Cartref | 0 | 0 | 10 | 2000 | 3684 | £600,000 | £400,000 |
| 5ff | Addasiadau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau | 0 | 0 | - | 900 | 820 | £7,200,000 | £5,568,246 |
| 6 | Siop un stop i faterion Tai | 0 | - | | 3,500 | | £480,000 | |
| | | **1,966** | **834** | **582** | **15,512** | **8,720** | **£152,251,442** | **£68,865,126** |

*Ffigyrau targed yn unol â'r Cynllun cyfredol*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 03.04.25 |
| **TEITL** | **Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| **AWDUR** | Mannon Emyr Trappe |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2023, derbyniwyd trosolwg o waith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd a'r cynlluniau ar waith i ddod a'r tîm integredig gyda'r Bwrdd Iechyd i ben a chreu model gwaith newydd. Penderfynodd y pwyllgor ofyn am adroddiad cynnydd ar y model gwaith newydd ymhen blwyddyn.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- A yw'r model newydd yn darparu gwasanaeth gwell ac yn gweithredu yn fwy effeithlon?
- Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth am y model gwasanaeth newydd?
- Sut mae'r berthynas gyda iechyd yn gweithio yng nghyd-destun y trefniadau newydd?
- Beth yn union yw'r model newydd ?
- Oes lle yn y strwythur i addasu a newid - er gwella ?
- Faint o bobl sy'n derbyn gwasanaeth bod blwyddyn?
- Faint o bobl sydd ar y rhestr aros am wasanaeth?
- A oes rhai pobl sy'n cysylltu ddim yn derbyn gwasanaeth neu'n cael eu gwrthod? Os oes, beth yw'r niferoedd?

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Yn mis Mehefin 2023, bu i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn adnabod sefyllfa'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yng Ngwynedd. Roedd yr adroddiad wedi ei llunio gan Dr Ceryl Davies, Ymgynghorydd o Brifysgol Cymru Bangor. Pwrpas yr adroddiad oedd i adnabod cyfraniad y Cyngor i'r gwasanaeth, ystyried sut oeddem yn cyflawni gofynion y gwasanaeth, o fewn cyd-destun cyfrifoldebau statudol, gan ystyried os oedd modd dyrannu adnoddau yn well er mwyn galluogi'r gweithlu i roi sylw digonol i waith ataliol a chefnogi llesiant allweddol.

Rhoddwyd gefnogaeth i'r Adran sefydlu model newydd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a gwnaed cais gan aelodau'r pwyllgor i adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r adolygiad ac ar unrhyw argymhellion ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd meddwl addas i'r dyfodol.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

Mae'r fframwaith polisi cymdeithasol yng Nghymru yn amlinellu gweledigaeth strategol hirdymor sy'n canolbwyntio ar agwedd system gyfan at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn dilyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu (2011), roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar greu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion y boblogaeth a'r gymuned yn awr ac yn y dyfodol, trwy ethos o ataliaeth, llesiant ac ymarfer aml-asiantaethol yn seiliedig ar gryfder yr unigolyn.

**TROSOLWG O'R GWASANAETH ERS 1996**

i. Roedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth integredig aml-ddisgyblaethol ers 1996, gyda'r Bwrdd Iechyd (BIPBC) yn arwain y Gwasanaeth. Roedd y Gwasanaeth yn gweithredu yn unol a'r Mesur Iechyd Meddwl 2010, sy'n rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth addas yn ei le, sy'n canolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl unigolion.
ii. Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn strategaeth a luniwyd gan Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi unigolion ar draws Cymru.
iii. Roedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Integredig yn cynnig gwasanaeth a chefnogaeth i achosion lefel isel ac i achosion fwy dwys.
iv. Roedd cyfeiriadau'n cael eu derbyn gan feddygon teulu a pob cyfeiriad yn cael ei graffu'n ddyddiol (Llun i Gwener) ac yn asesu os oedd gwybodaeth digonol i wneud penderfyniad i dderbyn y cyfeiriad (h.y. bod tystiolaeth o salwch meddwl neu effaith ar les meddyliol). Byddai cyfeiriadau nad oedd yn cyrraedd y gofynion am wasanaeth yn cael eu cyfeirio nol i'r meddyg gydag eglurhad, gan gynnig opsiynau cefnogaeth amgen.
v. Yn ôl y Mesur, roedd angen cynnal asesiadau o fewn 28 diwrnod, rhai brys o fewn 48 awr ac achosion brys iawn i dderbyn ymateb o fewn 4 awr.
vi. Gweithwyr Cymdeithasol oedd y prif adnodd o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl integredig, yn cynnig cefnogaeth i unigolion i oresgyn neu i ymdopi gyda'u salwch.
vii. Gan mai'r Bwrdd Iechyd oedd yn arwain y Gwasanaeth Integredig, roedd ffocws cryf ar y model meddygol – h.y. diagnosis a meddyginiaeth. Ein rôl fel Awdurdod Lleol oedd canolbwyntio ar yr elfennau cymdeithasol ac hefyd i arwain ar y gwaith o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**ADRODDIAD DR CERYL DAVIES, ECONOMEGYDD GOFAL CYMDEITHASOL, YSGOL GWYDDORAU MEDDYGOL AC IECHYD, PRIFYSGOL BANGOR (Medi 2022)**

Comisiynwyd Dr Ceryl Davies, i asesu sefyllfa'r Gwasanaeth Iechyd Integredig a cyflwynwyd ganfyddiadau'r Adroddiad yma i'r Pwyllgor Craffu Gofal 22/06/2023.

Y canfyddiad allweddol o'r gwaith oedd cytundeb bod y model iechyd meddwl integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ddim yn gynaliadwy ac angen ei ail fodelu.

Mae casgliadau'r adroddiad yma eisoes wedi eu trafod a'u amlygu yn y Pwyllgor Craffu Gofal a gynhaliwyd 22 Mehefin 2023.

**AIL FODELU GWASANAETH IECHYD MEDDWL**

i. I gyd-fynd ag ethos polisi cymdeithasol Cymru, mae Gwasanaethau Oedolion Cyngor Gwynedd wedi adolygu agwedd gyfredol Gwaith Cymdeithasol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl, gan ail fodelu strwythur y Gwasanaeth. Golyga hyn ddisodli'r gwasanaeth integredig, gan barhau i gyd-lynu a darparu cefnogaeth gynhwysfawr i drigolion Gwynedd gyda'u anghenion iechyd meddwl.

ii. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd yn golygu bod Gweithwyr Cymdeithasol Iechyd Meddwl, a gyflogir gan Cyngor Gwynedd, yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl a chymdeithasol priodol o fewn y gymuned, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac ar adferiad i oedolion gyda'u anghenion iechyd meddwl.

iii. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y bedair elfen o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant , 2014, sef:

- llais a rheolaeth i unigolion, sef rhoi'r unigolyn wrth wraidd y gofal;
- atal ac ymyrryd yn gynnar, sef gweithio'n ataliol er mwyn lleihau'r dirywiad a'r angen am ofal brys;
- llesiant, cefnogi unigolion i reoli llesiant eu hunain;
- cyd-gynhyrchu, sef annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio a darparu gwasanaethau sy'n addas i'r angen.

iv. Mae cyllideb blynyddol y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth yn £5,197,300.

**GWASANAETH CYMDEITHASOL IECHYD MEDDWL CYNGOR GWYNEDD**

Swyddi sydd yn gyflogedig gan Cyngor Gwynedd:

| Swydd | Arfon | De Gwynedd |
|---|---|---|
| Arweinydd Ardal | 1 | 1 |
| Uwch Weithiwr | 1 | 1 |
| Gweithwyr Cymdeithasol | 6.5 | 6 |
| Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol | -------- | 0.5 |
| Gweithwyr Cefnogol | 4.5 | 4.5 |
| Gweinyddwr | 1 | |

- Mae'r timau wedi eu rhannu i ardal Arfon a De Gwynedd. Mae tîm Arfon wedi eu lleoli yn Swyddfeydd Pencadlys y Cyngor yng Nghaernarfon a Thîm De Gwynedd wedi eu leoli yn Safle Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth, gyda rhai o Tîm De Gwynedd yn gweithredu o swyddfa'r Cyngor yn Nolgellau yn achlysurol.
- Gwnaed bid llwyddiannus i gyflogi 2 uwch weithiwr newydd i alluogi'r ail ddylunio gwasanaeth ddigwydd. Mae'r buddsoddiad sylweddol yma gan y Cyngor wedi bod yn allweddol i sicrhau bod y gwasanaeth mewn sefyllfa i gyfarch anghenion unigolion yn amserol.
- Byddwn yn monitro'r strwythur yma er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas a gweld os oes unrhyw dystiolaeth i addasu'r strwythur er mwyn cyfarch yr angen.

- Mae 9 o'r Gweithwyr Cymdeithasol hefyd yn AMHP o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac mae 2 yn hyfforddi i gael y cymhwyster AMHP. Mae 3 AMHP ychwanegol yn gweithio mewn timau eraill o fewn y maes oedolion.
- Mae denu a chadw AMHPs yn her hanesyddol ac mae'r Adran wedi adolygu cyflogau er mwyn sicrhau bod cydnabyddiaeth deg am y rôl anodd ac hefyd i sicrhau ein bod yn gystadleuol a siroedd cyfagos.

**SEFYLLFA GYFREDOL IECHYD MEDDWL**

Yn ôl ystadegau mae 1 o bob 4 person yn profi anhwylder iechyd meddwl yn y DU bob blwyddyn, a all gynnwys gorbryder neu iselder. Yn gyffredinol, mae iechyd meddwl pobl yng Ngogledd Cymru ychydig yn well na Cymru gyfan, ond mae disgwyl cynnydd bychan mewn achosion o anhwylderau iechyd meddwl cyffredinol, megis gorbryder ac iselder rhwng rŵan a 2040. Tra bod achosion iechyd meddwl clinigol yn debygol o leihau. Mae'n anodd darogan os ydi'r lleihad yma oherwydd lleihad mewn galw, ynteu lleihad mewn argaeledd gwlâu aciwt iechyd meddwl. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod y nifer sy'n profi anhwylder iechyd meddwl yn uwch na'r nifer sy'n derbyn triniaeth – gall hyn fod oherwydd nad yw pawb sy'n profi anhwylder iechyd meddwl yn chwilio am gymorth.

Yn 2022-23, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau i asesu llesiant meddyliol pobl. Mae'r ffigyrau isod yn cymharu'r sgoriau cyfartalog ar gyfer llesiant meddyliol yn ôl blwyddyn. Gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y sgoriau rhwng 2016-17 a 2022-23. Y sgôr gyfartalog oedd 50.9 yn 2016-17, o gymharu â 48.2 yn 2022-23. Mae'n dangos bod llesiant meddyliol yn gostwng a bod yr angen am gefnogaeth yn debygol o gynyddu o ganlyniad i hyn. Mae'n debyg bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar lesiant meddyliol ac mae astudiaeth yn nodi bod pobl ifanc yn profi mwy o bryder ers y cyfnod hynny.*( Kupcova, I., Danisovic, L., Klein, M. et al. Effects of the COVID-19 pandemic on mental health, anxiety, and depression. BMC Psychol **11**, 108 (2023).)*

| | |
|---|---|
| 50.9 | 2016-17 |
| 51.4 | 2018-19 |
| 48.9 | 2021-22 |
| 48.2 | 2022-23 |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17, 2018-19, 2021-22, 2022-23

| **Llwyth achos y Gwasanaeth -** | |
|---|---|
| **Nifer o achosion sy'n agored i'r Gwasanaeth** | **439** |
| **Nifer o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth ers mis Mai 2024** | **281** |
| **Nifer o achosion a.117 sy'n agored** | **233** |
| **Nifer o asesiadau gofalwyr** | **12** |
| **Nifer o asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl** | **133** |

Bu rhestr aros am asesiad am hyd at 9 wythnos yn Ne Gwynedd diwedd 2024. Roedd hyn yn ymwneud â salwch staff. Nid oes rhestr aros ar hyn o bryd.

Byddwn yn adrodd y mesurau perfformiad uchod i'r cyfarfod herio perfformiad yn chwarterol. Mae'n ddyddiau cynnar i geisio canfod unrhyw dueddiadau ond byddwn yn adolygu ein mesurau perfformiad i sicrhau bod data ystyrlon yn cael eu casglu (niferoedd sy'n cael eu cyfeirio ymlaen).

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Arweinwyr Ardal, Gweithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cefnogi Iechyd Meddwl i drafod y gwasanaeth iechyd meddwl integredig ac i drafod y ffordd orau ymlaen, o ran yr angen i ail fodelu, gan amlygu'r prif heriau a rhwystrau a amlygwyd yn adroddiad Dr Ceryl Davies. Daethpwyd yn amlwg bod mwyafrif y staff yn cytuno gyda'r argymhelliad i ail fodelu'r gwasanaeth ac roeddent yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r broses ac i rannu profiadau ac unrhyw esiamplau o ymarfer da y gellid eu ymgorffori yn y model newydd.

Cynhaliwyd nifer o weithdai gyda staff, gan lunio rhaglen waith glir, er mwyn sicrhau bod y prif weithdrefnau yn cael ystyriaeth lawn a bod staff yn cael cyfle i roi mewnbwn.

<u>Trafodwyd :-</u>

- Adroddiad Dr Ceryl Davies – y broses ymchwil, y prif ganfyddiadau, risgiau a rhwystrau, ffrydiau gwaith
- Drws ffrynt a meini prawf ar gyfer derbyn gwasanaeth
- Dogfennau amrywiol e.e dogfen asesu; asesiad risg (proses); ffurflen gyfeirio; cynllun cefnogaeth
- Prosesau a chanllawiau – Llywodraethu Gwybodaeth (Information Governance) / Canllawiau Gweithredu (Op Guidance)
- Anghenion hyfforddiant
- Cynllun cyfathrebu
- Polisïau a gweithdrefnau (e.e. cytundeb rhannu gwybodaeth/adolygu achosion)
- Cyllid
- Defnyddio System weithredu (WCCiS)

Yn ychwanegol i ymgynghori gyda staff Cyngor Gwynedd, rhoddwyd cyfleoedd cyson i Uwch Reolwyr BIPBC ddarparu mewnbwn ar y gwasanaeth integredig ond ni dderbyniwyd ymateb. Bu i'r Cyngor lythyru Cadeirydd y Bwrdd Iechyd i nodi'r bwriad o ail-ddylunio'r gwasanaeth ond eto, ni chafwyd ymateb.

Ers i'r gwasanaeth newydd gael ei sefydlu ym mis Mai 2024, mae 3 cyfarfod wedi bod hefo'r gwasanaeth i adolygu'r trefniadau newydd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi rhoi cyfle i ni graffu y dull o weithio a'n dogfennau i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd sy'n addas i bwrpas.

Yn unol a'r gwasanaethau eraill o fewn yr Adran, mae'r tîm bellach yn cofnodi ar WCCIS (BIPBC yn parhau i gofnodi ar ffeiliau papur). Mae'r drefn cofnodi yn llawer mwy diogel ac yn hwyluso gwaith awdit yr Adran.

<u>Boddhad cwsmer:</u>
Mae bwriad i anfon holiadur i ganfod barn unigolion sydd wedi/ yn derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth. Bydd y canfyddiadau yn llywio datblygiad y Gwasanaeth.

<u>Boddhad staff :-</u>

Mae'n gwbl amlwg bod ail fodelu'r gwasanaeth wedi gwella llesiant y staff. Dyma rai o sylwadau aelodau'r gwasanaeth :–

*"teimlo fel rhan o'r Cyngor"*

*"mae'r person yn dod gyntaf yn lle'r broses"*

*"yn cael bod yn Weithiwr Cymdeithasol"*

*"ymarfer yn canolbwyntio ar gryfderau'r unigolyn yn hytrach na beth rydym yn gallu ei gynnig"*

Mae'r Arweinyddion Ardal a'r Uwch Weithwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Timau Ardal Cymunedol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth am y gwasanaeth a'r meini prawf ac i hyrwyddo cydweithio.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Bydd yn flwyddyn ers sefydlu'r gwasanaeth newydd ym mis Mai. Mae bwriad anfon holiadur syml i unigolion sy'n derbyn gwasanaeth i graffu eu barn ar y gwasanaeth ar ei newydd wedd.

**A ydych wedi ystyried cydweithio?**

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i fod yn gweithredu i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Mae cydweithio da yn digwydd gyda awdurdodau eraill ar draws y rhanbarth o ran rhannu ymarfer da a gwybodaeth ac gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel lleol.

**Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

Credir bod yr Adran wedi gwneud ymdrech i ymateb i'r heriau ac yn parhau i geisio canfod datrysiadau ymarferol. Ni ellir rhagweld gyda unrhyw sicrwydd beth fydd sefyllfa'r dyfodol ond mae'r nifer o'r cyfeiriadau i'r gwasanaeth yn cynyddu ac mae'n holl bwysig ein bod yn parhau i gyd-weithio gyda'n partneriaid trydydd sector a'r gymuned yn ehangach er mwyn cefnogi unigolion o fewn eu cymunedau.

**Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

Mae'r newidiadau i'r Gwasanaeth wedi eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn diwallu eu dyletswyddau yn yr hirdymor.

**Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

Roedd y penderfyniad i sefydlu Gwasanaeth Cymdeithasol Iechyd Meddwl yn mynd yn groes i ddyheadau'r Senedd i sicrhau integreiddio. Gwnaed y penderfyniad i ddiogelu gweithlu'r Cyngor ac i sicrhau ein bod yn cyfarch ein dyletswyddau statudol. Mae pob Awdurdod Lleol ar draws y rhanbarth bellach wedi sefydlu gwasanaethau ar wahân i BIPC. Er hyn, mae cydweithio agos yn parhau hefo'r gwasanaethau'n lleol.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r gweithlu'n ymdrechu i sicrhau bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud pan yn asesu unigolion a phan yn ymgysylltu â'u teuluoedd. Bydd hyn yn cael ei nodi ar yr asesiad 'Beth sy'n Bwysig'.

## 8. Camau Nesaf

'Rydym wedi gwneud cais i BIPBC i fynychu eu cyfarfodydd clinigol wythnosol er mwyn trafod achosion a'n galluogi i drosglwyddo achosion yn hytrach na gorfod gwneud cyfeiriad o un gwasanaeth i'r llall.
Mae grwpiau eisoes yn bodoli'n Arfon ond mae gwaith i ddatblygu 2 grŵp yn Ne y Sir (Nefyn a Dolgellau). Mae cydnabyddiaeth bod llesiant iach yn bwysig i bawb ac felly bydd y grwpiau hyn yn agored i ddefnyddwyr holl wasanaethau oedolion.
Mae bwriad i anfon holiadur i ddefnyddwyr gwasanaeth i holi eu barn am y gwasanaeth.

## 9. Atodaiadau

Lles meddyliol (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Mawrth 2023 | LLYW.CYMRU
Mental well-being (National Survey for Wales): April 2022 to March 2023 | GOV.WALES

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 03.04.25 |
| **TEITL** | Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| **AWDUR** | Aled Gibbard, Pennaeth Cynorthwyol Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Trenholme/ Cynghorydd Dilwyn Morgan |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor craffu yn 2023 ar y Cynllun Awtistiaeth. Yn sgil hynny sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn edrych yn fwy manwl ar y cynllun. Cyflwynwyd adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen i'r Pwyllgor Craffu yn Ebrill 2024 a phenderfynwyd gofyn am adroddiad cynnydd ymhen blwyddyn.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

1. Cynnydd ar y rhaglen waith ers blwyddyn ddiwethaf
2. Parhad gwasanaeth yn dilyn terfyn y grant

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

*Prif neges yr adroddiad yw bod y Tim Awtistiaeth bellach wedi eu ymsefydlu'n dda ac wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn diwethaf.*

*Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i'r awdurdod lleol gyfan, yn ogystal a'r Bwrdd Iechyd. Sefydlwyd y Tim Awtistiaeth yng Ngwynedd er mwyn mynd i'r afael a bwlch mewn gwasanaeth lle nad oedd unigolion awtistig o reidrwydd yn cyfarfod meini prawf rhai gwasanaethau. Nid pwrpas y tîm yw dyblygu unrhyw wasanaeth arall. Lle mae unigolion awtistig yn derbyn gwasanaeth eisoes, nid ydynt yn trosglwyddo i'r Tim. Fodd bynnag, mae gan y tîm arbenigedd, a maent ar gael i ymgynghori neu i wneud gwaith ar y cyd gyda thimau eraill. Mae ganddynt ffocws clir ar gynnig gwasanaeth i'r unigolion hynny nad ydynt yn eisoes yn adnabyddus i wasanaethau eraill.*

*Mae'r Cynllun Awtistiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth yng Nghynllun y cyngor 2023-28..*

*Y blaenoriaethau gweithredu dros y flwyddyn diwethaf oedd:*

- *Sefydlu cysylltiadau ar draws yr holl dimau gofal cymdeithasol a sefydlu prosesau clir a chysylltu mewn gyda fforymau oedran pontio ac oedolion sy'n agored i niwed.*

- *Cryfhau'r cysylltiad gyda'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol a gweithio ochr yn ochr a hwy i ddatblygu cefnogaeth i unigolion awtistig yn y Sir.*

- *Cryfhau'r berthynas gyda Gwasanaeth Niwroddatblygiadol y Bwrdd Iechyd a chynnig cymorth yn ystod y cyfnod asesu a diagnosis.*

- *Ymgysylltu gyda unigolion awtistig a'u teuluoedd neu gofalwyr er mwyn symud i gyd-gynhyrchu gwybodaeth a gwasanaethau lleol.*

- *Parhau i hybu a gweithredu'r cynllun hyfforddiant aml haen ar draws y Cyngor. Cynnal awdit o anghenion hyfforddiant staff, gan ystyried rolau unigol o safbwynt cysylltiad gyda pobl awtistig.*
- *Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol.*

## 4. Cefndir / Cyd-destun

*I bwrpas adrodd ar gynnydd yn yr adroddiad hwn fe wneir hynny ar sail y meysydd penodol o fewn y Cod Ymarfer.*

### *4.1 Mynediad i wybodaeth a chyngor am y gwasanaethau sydd ar gael*

1. *Mae gwefan yr Awdurdod Lleol wedi'i datblygu ac mae'n darparu gwybodaeth glir am wasanaethau ac adnoddau lleol a Chenedlaethol (fel Gwefan y Gwasanaeth Niwro Cenedlaethol). Mae tudalen we "Awtistiaeth Gwynedd" yn cynnwys gwybodaeth glir ar sut i gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol am gymorth a chefnogaeth. Mae hefyd yn cynnwys dolen i Ganllaw Hanfodion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru, sy'n darparu gwybodaeth am hawliau pobl.*

2. *Mae'r tudalennau gwe wedi'u rhannu a'u hyrwyddo gydag eraill, megis timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), gwasanaethau asesu diagnostig, sefydliadau trydydd sector lleol, grwpiau cymorth i rieni, ac ysgolion, meddygfeydd, canolfannau hamdden a grwpiau cymunedol, a thrwy gyfryngau cymdeithasol a diwrnodau gwybodaeth, i helpu i sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i wybodaeth digidol*

3. *Mae Cyfeiriadur o wasanaethau Awtistiaeth wedi'i ddatblygu ac mae'r tîm awtistiaeth yn mapio'r hyn sydd ar gael yn lleol. Mae ap ar-lein " Niwro Gwynedd", i ddod â gwybodaeth ac adnoddau lleol ynghyd, hefyd yn cael ei ddatblygu. Fe'i ddatblygwyd mewn ymgynghoriad ag unigolion awtistig a'u teuluoedd a disgwylir iddo fod ar gael erbyn diwedd mis Ebrill 2025.*

4. *Mae gwybodaeth am wasanaethau lleol hefyd ar gael trwy Dewis Cymru. Mae ymdrechion wedi'u gwneud i godi ymwybyddiaeth mewn timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o dudalennau gwe awtistiaeth neu niwroamrywiaeth a chyfeiriaduron lleol, i ategu'r defnydd o Dewis Cymru.*

5. *Mae canolfannau teulu Gwynedd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth cychwynnol a chyfeirio i deuluoedd lle mae staff wedi cael hyfforddiant penodol ar awtistiaeth ac mae swydd a ariennir gan NDIP yn cael ei pheilota yn eu gwasanaeth.*

6. *Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth yn darparu gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth ar gyfer oedolion. Y gwasanaeth yma yn cydweithio yn agos gyda'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant. Adolygiad o drefniadau drws ffrynt y gwasanaeth Oedolion Iechyd a Llesiant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i hwyluso mynediad i'r gwasanaeth a gwella cydweithio rhwng gwasanaethau.*

7. *Mae Gwasanaeth Niwroddatblygiadol BIPBC wedi datblygu padlet yn egluro pa gymorth sydd ar gael ac mae amrywiaeth o wybodaeth i rieni a gofalwyr ar gael ar Wefan BIPBC.*

8. *Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth a chyngor i oedolion awtistig a rhieni a gofalwyr, a bydd yn darparu cefnogaeth wyneb yn wyneb.*

9. *Cynhaliwyd Sioe Deithiol Niwrowahaniaeth mewn 2 leoliad gwahanol yn ystod Chwefror a Mawrth 2025. Mynychodd cyfanswm o 566 o unigolion y digwyddiadau hyn. Roedd 256 o'r rhai a fynychodd ar restr aros y gwasanaeth niwroddatblygiadol. Roedd gan 38 o wahanol wasanaethau stondinau rhannu gwybodaeth yn y digwyddiad. Cynhaliwyd gweithdai hefyd ar ADHD, PDA ac Integreiddio Synhwyraidd (roedd y gweithdai hyn i gyd yn llawn). Roedd y profiad Bws Awtistiaeth hefyd ar gael yn y ddau weithdy, gyda chyfanswm o 181 o unigolion yn mynychu. At ei gilydd cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar y digwyddiad cyfan.*

### *4.2 Cefnogaeth*

1. *Mae cymorth ar gael gan wasanaethau IAA a gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, a gwasanaethau cymorth cynnar, waeth beth fo'r diagnosis.*

2. *Mae llwybr ar gyfer plentyn Awtistig gydag, neu yr amheuir bod ganddo, anabledd dysgu sy'n cyd-ddigwydd, i gael mynediad at wasanaethau Derwen yn glir, ac yn gweithio'n dda.*

3. *Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn gwneud gwaith allgymorth ar draws Gogledd Cymru. Maent yn cynnal cymorthfeydd a diwrnodau agored i wasanaethau a'r cyhoedd i hyrwyddo'r gwasanaeth yng Ngwynedd- gall y rhain fod yn foreau coffi, sesiynau galw heibio ac maent yn darparu gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl awtistig gyda chyfleoedd rhwydweithio. Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu i sicrhau bod pawb yn gwybod beth sydd ar gael ac yn gallu atgyfeirio pobl yn briodol. Mae lefelau uchel o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn awgrymu ymwybyddiaeth dda o'r llwybr atgyfeirio. Mae aelod o'r Tim Awtistiaeth hefyd yn mynychu rhai fel arfer.*

4. *Mae gwaith wedi dechrau yn adolygu polisi oed trosglwyddo y Cyngor i sicrhau eglurder ar y drefn a gwella cydweithio rhwng gwasanaethau yn y fforymau oed trosglwyddo. Fel rhan o'r gwaith, mae cefnogaeth yn cael ei ddarparu gan Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru i gydweithio efo pobl a teuluoedd i lunio gwybodaeth 'hawdd ei ddarllen' am y broses.*

5. *Mae Gwasanaeth Awtistiaeth y Cyngor a gwasanaeth Niwroddatblygiadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd, gan rannu gwybodaeth i ddiwallu anghenion teuluoedd. Mae'r ffocws ar ddarparu cefnogaeth a chyfeirio i ddeall a diwallu anghenion. Er bod yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau AD ac ADHD yn parhau i gael eu gwneud, bu gostyngiad o 10% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymddengys mai'r rheswm am hyn yw'r cynnydd mewn cymorth cynharach a chyfeirio at wasanaethau yn y cymunedau lleol.*

6. *Cefnogodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB), sydd bellach ag ND fel ei flaenoriaeth strategol, brosiect yn y gorllewin i gynyddu'r cymorth wrth y drws ffrynt cyn y gwneir atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau. Mae hyn wedi galluogi'r defnydd o sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig" yn gynnar. Mae'r ymarferwyr ar gael i ddarparu asesiad o'r hyn sy'n bwysig ac yn gallu rhoi cyngor ar asesu anghenion ac asesiadau gofalwyr cyn ac ar ôl diagnosis.*

7. *Cynhelir grwpiau 'cefnogi' rhieni sy'n ofalwyr (Paned a sgwrs) mewn partneriaeth a'r Bwrdd Iechyd. Mae nifer o rieni yn mynychu ar draws y sir (5 lleoliad i gyd). Mae'r ffaith eu bod yn parhau i fynychu a gweld wynebau newydd yn fisol yn dyst i'w gwerth. Mae rhieni a gofalwyr yn mynychu i dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) ac i gael eu cefnogi ar y llwybr cywir pan all llywio gwasanaethau fod yn anodd yn enwedig pan fyddant dan straen. Mae'n arbennig o ddefnyddiol bod gweithwyr proffesiynol awdurdodau lleol ac iechyd yn mynychu'n gyson i gynnig IAA. Yn ogystal mae gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu gwahodd i siarad â rhieni am bynciau penodol e.e. hylendid cwsg, synhwyraidd, eiriolaeth ac ati.*

8. *Rydym yn cynnig rhaglen cymorth rhiantu "Cygnet" yma yng Ngwynedd, a wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan rieni a gweithwyr proffesiynol sydd wedi mynychu. Mae hyn wedi arwain at rieni'n teimlo'n llawer mwy hyderus wrth riantu ac wrth eirioli ar ran eu plant.*

9. *Mae Awtistiaeth Gwynedd yn darparu gwasanaeth ymgynghori ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac yn cyd weithio a timoedd adran plant ac oedolion i sicrhau bod asesiadau a cynlluniau yn holistig a chynhwysol ac yn adlewyrchu anghenion unigolion awtistig a'i teuluoedd yn glir. Rhoddir ystyriaeth i addasiadau rhesymol er mwyn i unigolion a'i teuluoedd gyfrannu a bod yn ganolog a ymgysylltu yn llawn a'r broses asesu anghenion gofal a chymorth.*

   *Mae'r cynnig yma hefyd yn atgyfnerthu ein gwaith o gwmpas codi ymwybyddiaeth a derbyn awtistiaeth. Drwy ymgynghori mae gweithwyr a timau yn dysgu ac yn datblygu sgiliau a dulliau ymgysylltu sydd yn niwrogadarnhaol.*


10. *Mae Awtistiaeth Gwynedd yn darparu gwasanaeth uniongyrchol drwy gefnogi fel gweithiwr eilradd o fewn gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cefnogi unigolion*

*awtistig sydd a anghenion cymhleth. Rydym yn darparu rhaglen o waith yn seiliedig ar angen ee. Datblygu hunaniaeth, deall a rheoli emosiynau, DBT a mwy. Mae hyn o gymorth i symud unigolion ymlaen yn dilyn cyfnod anodd. Mae datblygu perthynas ac ymddiried mewn gweithiwr yn rhan allweddol o'r gwaith felly mae gweithwyr allweddol y tîm yn gweithio am gyfnod er mwyn cyrraedd canlyniadau sy'n ddymunol i'r unigolyn ar teulu. Mae'r gwaith yma wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn.*

11. *Wrth i'r tîm ddatblygu daeth yn amlwg bod anghenion synhwyraidd yn elfen oedd angen ei gryfhau. Roedd angen rôl integreiddio synhwyraidd i arbenigo ac i ddatblygu'r gwaith. Llwyddwyd i ddenu arian ychwanegol drwy Rhaglen Niwroddatblygiadol Llywodraeth Cymru a phenodwyd gweithiwr allweddol synhwyraidd. Mae'r swyddog yn derbyn goruchwyliaeth gan Therapydd Galwedigaethol.. Gall y tîm nawr gynnig addysg synhwyraidd a chyngor i rieni/gofalwyr a gall gweithwyr proffesiynol ofyn am ymgynghoriad ar achosion a allai fod ag anawsterau integreiddio synhwyraidd. Gall y tîm hefyd gynnig proffiliau synhwyraidd, gan weithio gydag unigolion awtistig a'u teuluoedd i gael darlun cliriach o anghenion synhwyraidd person a thrwy hynny gynnig cefnogaeth ac arweiniad ar sut i ddiwallu angen. Datblygwyd llyfrgell adnoddau synhwyraidd, sydd ar gael i weithwyr proffesiynol i gefnogi'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Mae'r adnoddau ar gael i ddatblygu cylchedau synhwyraidd ac i ganfod anghenion synhwyraidd unigolyn. Mae'n ddrud i deuluoedd brynu offer synhwyraidd nad yw efallai 'n addas, felly mae'r llyfrgell ar gael ar sail 'rhoi cynnig arni cyn prynu'.*

### *4.3 Materion Gweithlu/Hyfforddiant*

1. *Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth yn orfodol i bob aelod o staff gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio adnoddau e-ddysgu gan Niwrogyfeirio Cymru. Mae hefyd yn cael ei gynnig ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn canolbwyntio ar lefelau 1 (ymwybodol o awtistiaeth) a Lefel 2 (Cyfathrebu).*




2. *Mae hyrwyddwyr awtistiaeth yn rhan o grŵp cyfoedion datblygu ymarfer lle gallent gael eu hysbysu am ddatblygiadau newydd, deddfwriaeth, ymchwil a chael cyfle i*

*drafod enghreifftiau o achosion er mwyn datblygu arfer da. Mae hyn yn galluogi bod y wybodaeth yn cael ei rannu o fewn y timau.*

3. *Mae rhaglen hyfforddiant uwch 'Gwaith cymdeithasol trwy lens niwroamrywiol' (SWthNDL,) yn cael ei ddarparu gan dîm Awtistiaeth Gwynedd. Cyd-gynhyrchwyd yr hyfforddiant hwn gyda unigolion awtistig i gefnogi gweithwyr o fewn gofal cymdeithasol i ddeall a derbyn awtistiaeth ac i ddatblygu gwybodaeth a hyder wrth weithio gydag unigolion awtistig a'u teuluoedd. Mae'r hyfforddiant gweithdy  wedi deillio allan o'r angen i symud agweddau a dealltwriaeth o fewn y gweithlu o batrwm patholegol drosodd i fodel cymdeithasol neu batrwm niwroamrywiol i feithrin model ymarfer sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac ar sail cryfderau. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan weithwyr y wybodaeth a'r sgiliau i asesu anghenion gofal a chymorth yn effeithiol a darparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a darparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn effeithiol ac yn gyfannol.*

4. *Fel rhan o'r fframwaith hyfforddi nod Gwynedd yw dod yn awdurdod lleol sy'n ymwybodol o awtistiaeth. Rydym yn hyrwyddo'r modiwlau ar-lein a gynigir gan lywodraeth Cymru ac yn cynnal dadansoddiadau anghenion hyfforddi rheolaidd i gadw cofnod. Yn ogystal, rydym bellach yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector i sicrhau bod gwasanaethau yng Ngwynedd yn ymwybodol o awtistiaeth ac yn ei dderbyn. Mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn gallu dangos yn ffisegol (bathodyn mewn ffenestr adeilad) ei fod yn fudiad sy'n cadarnhau awtistiaeth/ND a sy'n gallu darparu addasiadau i gwrdd ag angen. Mae hyn mewn ymateb i lais y gymuned niwroddatblygiadol awtistig sy'n teimlo nad oes ganddynt fynediad cyfartal at 'rai' gwasanaethau ar hyn o bryd neu'n teimlo nad ydynt yn cael eu deall wrth gysylltu â gweithwyr proffesiynol..*

5. *Mae'r Gwasanaeth Niwro Cenedlaethol wedi darparu hyfforddiant i dimau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yng Ngwynedd i godi ymwybyddiaeth o'u dyletswyddau o dan y Côd Ymarfer.*

### *4.4 Gweithio mewn Partneriaeth*

1. *Mae Grŵp Niwrogyfeirio Rhanbarthol Gogledd Cymru yn weithredol. Pwrpas y grŵp yw gwella gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion niwroddatblygiadol yn unol â gweithrediad y Cod Ymarfer. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn rhagweithiol wrth asesu cydymffurfiaeth â'r Cod.*

2. *Mae grwpiau rhanbarthol eraill, megis Bwrdd Rhanbarthol IAS, hefyd wedi'u sefydlu ac yn cynnwys unigolion awtistig.*

3. *Mae grŵp rhanddeiliaid lleol yng Ngwynedd yn ddatblygiad diweddar gyda phresenoldeb partneriaid perthnasol a'i nod yw cynnwys unigolion sydd â phrofiad byw dros y misoedd nesaf.*

4. *Drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol trefnwyd digwyddiad Rhanddeiliaid Rhanbarthol yn Llandudno yn ystod mis Mawrth2025. Roedd presenoldeb da o*

*Wynedd a phwrpas y digwyddiad oedd datblygu blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu rhanbarthol.*

5. *Rydym wedi cyd gynhyrchu 'Llwybrau ni', sef grŵp i bobl ifanc 14-25 oed, gyda phobl ifanc awtistig/ND, yng ngogledd a chanol Gwynedd. Yn ogystal, mae grwpiau bach â ffocws hefyd wedi'u datblygu ar draws Gwynedd i edrych ar ddatblygu hunaniaeth awtistig a seicoaddysg.*

### *4.5 Cyllido*


1. *Mynegwyd pryder 12 mis yn ôl yn y Pwyllgor bod y cynllun yn cael ei ariannu drwy grant. Nid oes newid i'r sefyllfa hynny wrth baratoi'r adroddiad hwn.*

2. *Mae cyllideb yn tîm yn deillio o:*
   *Cronfa Integreiddio Rhanbarthol £240,000*
   *Rhaglen Niwroddatblygiadol Llywodraeth Cymru £40,000*
   *Cyngor Gwynedd £85,000*

3. *Mae arian y Cyngor ar sail parhaol. Fodd bynnag mae Rhaglenni'r Llywodraeth dros 5 mlynedd. Ar hyn o bryd mae rhaglen RIF yn rhedeg tan 2027.Ariennir y Rhaglen Niwroddatblgyiadol o flwyddyn i flwyddyn. Mae datblygu gwasanaethau Niwroddatblygiadol yn flaenoriaeth gan Llywodraeth Cymru. Serch hynny ni fyddwn yn gwybod am unrhyw raglenni dilynol nes fydd y rhai presennol yn llawer fwy agos at ddiwedd y cynlluniau.*

5. ***Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn rhai cwestiynau penodol a rhoddir ymatebion iddynt isod**:*

***Cwestiwn 1***:Faint o bobl sy'n derbyn gwasanaeth bod blwyddyn?



**Cwestiwn 2**: Faint o bobl sydd ar y rhestr aros am wasanaeth

Nid oes rhestr aros ar gyfer derbyn gwasanaeth gan y Tîm Awtistiaeth

**Cwestiwn 3**: A oes rhai pobl sy'n cysylltu ddim yn derbyn gwasanaeth neu'n cael eu gwrthod? Os oes, beth yw'r niferoedd?

Nid ydym wedi gwrthod gwasanaeth.

## 5. Ymgynghori

*Wrth baratoi'r adroddiad hwn rydym wedi ymgynghori gyda gwasanaethau addysg ac iechyd sy'n ymwneud a'r maes awtistiaeth. Mae'r gwaith grwpiau sydd ganddom yn gyfle i glywed llais pobl sydd a phrofiad o awtistiaeth a maent yn cyfrannu ac yn dylanwadu ar raglen waith y tîm wrth ddatblygu darpariaethau.*

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*Rydym wedi ystyried y nodau llesiant perthnasol o dan y ddeddf hon. Rydym eisoes yn cynnwys trigolion a defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu gwaith yn y maes hwn. Yn ogystal mae cydweithio ar lefel aml-asiantaethol yn fewnol ac allanol eisoes yn digwydd.*

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

*Noder bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei baratoi ym mis Tachwedd 2021 wrth gyflwyno'n cynllun awtistiaeth. Byddwn yn ei adolygu yn ystod 2025-26.*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 3 Ebrill 2025 |
| **TEITL** | Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yn 2015, sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth mewn ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Yn dilyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod Canolbarth Cymru yn ardal gynllunio ddynodedig, cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal ym mis Mawrth 2018.

2. Mae Bwriad Strategol Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cyd-fynd â cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Gweledigaeth y Cyd-Bwyllgor yw:

   "Bod mynediad teg yn cael ei ddarparu ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru i wasanaethau iechyd a gofal integredig, diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel."

3. Mae ardal gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys Powys, Ceredigion a Meirionnydd.

4. Mae aelodaeth Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cynnwys Prif Weithredwyr sefydliadau gofal iechyd partner, sef:

   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

5. Ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol. Cynrychiolwyr Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor yw'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

6. Rôl y Grŵp Craffu yw edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn ardaloedd perthnasol siroedd Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

7. Mae'n gyfle i Gynghorwyr y tair sir graffu darpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn.

8. Mae craffu yn chwarae rôl hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

9. Cynrychiolwyr presennol y Pwyllgor Craffu Gofal ar y Grŵp Craffu yw'r Cynghorwyr Linda Morgan a John Pughe.

10. Yn dilyn ymddeoliad y Cynghorydd Linda Ann Jones fel aelod o'r Cyngor, mae angen ethol aelod arall i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Craffu.

11. Mae aelodau'r Grŵp Craffu yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor. Cynhelir dau gyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor mewn blwyddyn:

    - Cyfarfod Blynyddol ym mis Ebrill gyda'i brif bwrpas i fod yn gyfarfod cynllunio rhaglen waith y Cyd-Bwyllgor.
    - Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd sydd yn gyfle i arddangos gwaith y Cyd-Bwyllgor ac ymgysylltu gyda phartneriaid ac aelodau'r cyhoedd ar ei waith.

12. Mae cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor yn cael ei gynnal am 10.00yb ar ddydd Gwener, y 4ydd o Ebrill 2025 drwy Microsoft Teams.

13. Rôl aelodau'r Grŵp Craffu yng nghyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yw arsylwi ac i ofyn cwestiynau o dan yr eitem 'Rydym yn gwrando'. Pe dymunai unrhyw Aelod dderbyn mwy o wybodaeth ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad yn dilyn cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor, bydd cyfarfod o'r Grŵp Craffu yn cael ei drefnu a'i gynnal pryd hynny.

14. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**